YR YMOFYNYDD.

RHIF 33.] MAI, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

Y DDADL YNGHYLCH YSTYR "KOLASIS;" Y GAIR GROEG AM GOSPEDIGAETH YN MAT. XXV. 56.

PELL iawn oddiwrthym ni ydyw chwennych ymyru rhwng ein dadleuwyr ar unrhyw bwngc yn fwy na'i gilydd. Buasai yn well genym pe cynnygiasid y sylwadau canlynol gan ryw un o'n Gohebwyr dysgedig. Ond barnwn nad doeth fyddai i ni ddisgwyl yn hwy; ac mai annheg tuag at ein darllenwyr fyddai gadael yr amheuaeth a gyfododd Mr. D. L. Evans yn rhifyn Ionawr, ynghylch ystyr y gair *Kolasis*, i aros heb ei symud.

Mewn atebiad i'r gofyniadau a'r amheuadau a gynnygiwyd gan Mr. D. L. Evans, darfu i Mr. Jones, Aberdâr, yn rhifyn Mawrth, roddi yr hyn a ystyriodd ef yn *ddigonol* er dangos nad oes un lle i ammeu awdurdod Dr. Southwood Smith, &c., dros eu haeriad, "*ei fod yn cael ei addef yn gyffredinol* (universally allowed) *mai ystyr cyffredin y gair Kolasis, yw cosp er gwellâd; a bod y gair yn cael ei arferyd yn yr ystyr yma gan y Philosophyddion Paganaidd;*" gan sylwi yn briodol nad oes neb a'r a wyddys, hyd yn oed o'u gwrthddadleuwyr, wedi cynnyg gwrthbrofi neu ammeu yr haeriad—neb ond Mr. D. L. E. Hawdd y gallai Mr. D. L. E. ofyn, "Pa le mae y prawf?" Yr un mor hawdded y gellid ei atteb trwy ofyn, Pwy sy'n ammeu y *fact?* Ac y mae yn rhaid addef nas gallasai yn gyfiawn ddisgwyl i Mr. Jones, ar ei gais ef, i gymeryd mewn llaw y gorchwyl o ddwyn yn mlaen yr awdurdodau dros yr haeriad allan o Plato a'r philosophyddion paganaidd—gorchwyl a fuasai yn gofyn i Mr. J., ond odid, i brynu llyfrau costfawr, ac i dreulio amser maith i'w darllen a'u manwl chwilio—a hyny i gyd dim ond i gadarnhau haeriad ag nad oedd neb, a'r a wyddid, yn ei ammeu—neb ond Mr. D. L. E., yr hwn nid oedd ei hunan wedi myned i'r gost a'r drafferth a gymhellai ar arall.

Ond nid ein hamcan yw dangos anghysondeb Mr. D. L. E.; eithr i symud yr amheuaeth a ddichon fod yn aros ar ei feddwl ef, neu rywun arall (os neb) sydd a'i ffydd yn ei amheuaeth ef. Gan mai yr "Ymofynydd" sydd wedi bod yn offerynol i gyfodi yr amheuaeth, teg a chyfiawn ydyw i'r "Ymofynydd" ei symud, yn enwedig pan y mae digon o fodd i wneud hyny. Nid ydym yn cynnyg y sylwadau yma yn lle y "Traethawd arall" sydd gan

Mr. D. L. E. mewn golwg (tudal 96) "yn dangos beth yw ystyr gyffredinol y gair [Kolasis] gan y philosophyddion, Plato, Plutarch, ac Aristotle." Y peth yr ydym ar fedr ei wneuthur, yn lle britho yr "Ymofynydd" a dyfyniadau Groeg er adeiladaeth (?) y Cymro uniaith, yw dwyn gerbron dystiolaeth sicr—tystiolaeth a addefir ei bod uwchlaw pob amheuaeth, ac a ddylai fod yn benderfynol ar y pwngc—un ag oedd yn berffaith hyddysg yn yr iaith Roeg a'i harferiadau—dim llai na'r philosophydd Aristotle. Dyma ddywed ef, (Aristot. *Rhetor.* 1, 10, 17): "Y mae gwahaniaeth rhwng *timoria*, a *kolasis: kolasis* yw y gosp a *weinyddir er mwyn neu er lles y cospedig;* ond *timoria*, er mwyn yr hwn sydd yn peri i'r gosp gymeryd lle." (Diapherei de timoria kai kolasis; hê men gar kolasis tou paschontos heneka estin, hê de timoria tou poiountos, hina apoplêrothê.) Ac ar hyn y sylwa Wyttenbach yn dda, *(ad Select. Princ. Histor.)*: "Itaque *timoria* refertur ad exigendam vindictam legibus debitam, *kolasis* ad emendationem et cohibitionem peccantis:" h. y. "Gan hyny y mae *timoria* yn cyfeirio at gosp ddialeddol, yr hon a ofynir er mwyn anrhydeddu y gyfraith; *kolasis*, at wellhad y troseddwr, a pheri na throseddo mwyach."

Yn awr, pa beth yn ychwaneg a ofynir i brofi mai priodol ystyr *kolasis* yw, cosp a weinyddir er lles y cospedig? Rhaid y gwyddai yr hen philosophydd enwog mai hyn oedd ystyr y gair, ac mai dyma yr ystyr y cymerid ef yn gyffredinol gan y philosophyddion ereill. Pwy sydd yn ammeu awdurdod Aristotle am hyn o beth? A fydd i Mr. D. L. E. i ofyn etto, "Pa le mae y prawf?"

Yr oeddym wedi parotoi dyfyniadau i'r un perwyl allan o Ymddyddanion Socrates gan Plato, gwaith yr hwn sydd yn awr o'n blaen. Ond teimlwn y byddent yn afreidiol, ac na weinyddent nemawr i adeiladaeth ein darllenwyr yn gyffredinol. Am hyny rhaid eu hebcor ar y pryd hwn. Ni chawn ond cyfeirio at ddau neu dri o lefydd ynddynt ag sydd yr un mor bendant a phenderfynol ar y pwngc. Gorgias (Stalbaum) *cap.* 60. 505, B. C. Protagoras, *cap.* 13. 325, D. E. 324. B. C. Buasai yn dda genym pe buasai amgylchiadau yn caniatâu i ni roddi cyfieithiad o'r darnau hyny o waith gododog Plato pa rai ydym wedi cyfeirio atynt. Y maent yn ddigon o bregeth, i lawer Cristion proffesedig, ar natur a diben cosp. Rhyw bryd, os byddwn ni a'r "Ymofynydd" byw, ymdrechwn osod gerbron ein darllenwyr olygiadau Plato a Socrates ar y pwngc. Pa fodd bynag, yn y llefydd uchod, heb nodi mànau ereill, fe wel y darllenydd dysgedig, pan y caffo gyfle, a hyny mor amlwg a'r dydd, fod Socrates a Plato yn arferyd y gair *kolasis* yn yr un ystyr ag a roddir iddo gan Aristotle; sef, "cosp a weinyddir er lles y cospedig."

Y mae'n wir fod y gair *kolasis*, fel geiriau ereill, yn cael ei arferyd weithiau mewn ystyr anmhriodol. Felly mae'r geiriau *cerydd* a *chastisement* weithiau yn cael eu harferyd heb un olwg ar ddiben y gosp a weinyddir. Ond pwy o herwydd hyny sydd yn ammeu nad ystyr priodol a chyffredinol y geiriau *cerydd* a *chastisement* yw, cosp er lles y cospedig? Felly am *kolasis*, y gair Groeg am gospedigaeth, yn Mat. xxv. 46.

Yn ngenau milwr, fel yr un a ddyfynodd Mr. D. L. E., allan o "Cyropedia Xenophon;" neu pan y siaradir am fuddugoliaethau un genedl ar y llall, megis yn yr adnodau a ddyfynodd efe o "Ddoethineb Solomon" yn yr Apocrypha, mae'n amlwg fod y gair yn cael ei arferyd mewn ystyr anmhriodol—cosp yn unig sydd mewn golwg, heb un ystyriaeth o'r diben. Dichon fod rhai yn barnu nad ydyw o un pwys yn y ddadl, beth oedd y

philosophyddion Groegaidd yn feddwl wrth *kolasis*,—pa un ai cospi gyda diben da, neu ynte cospi yn ddialeddol, neu heb un olwg ar y diben—mai y cwestiwn yw, pa beth oedd Matthew—pa beth oedd Crist—yn feddwl wrth y gair a ddefnyddir i osod allan gospedigaeth yr annuwiol yn y byd a ddaw. Gwir iawn: dyma ydyw y ddadl, Beth mae datguddiad yn ei ddysgu ar y pwngc? Ond y mae yn rhaid addef *ei fod o bwys*, mor belled a gellir gosod pwys ar air, i ddangos fod y gair a ddefnyddir yn arwyddo mai cosp er gwella y cospedig, fydd. Rhaid i ni, modd bynag, ochelyd cyffwrdd â'r ddadl sydd yn yr "Ymofynydd," rhwng Mr. Evans o Lanbedr a Mr. Jones o Aberdâr, yr hon sydd heb ei gorphen etto, fel y gwelir oddiwrth yr hyn a ganlyn yn y rhifyn hwn, onide tueddasid ni yn gryf i gynnyg rhai sylwadau er dangos nad oes dim yn y bennod, na dim yn nysgeidiaeth Crist am y Tad Anfeidrol, sy'n arwyddo llai na mai diben da fydd gan Dduw yn ei waith yn cospi yr annuwiol, ac yn ganlynol, y gellir yn gymmwys gymeryd y gair *kolasis* yn ei ystyr priodol. Gadawer i ni yma i sylwi, fod un rhan o'r ddadl, yr hon hefyd a ystyrir yn gyffredin o bwys mawr, ag sydd hyd yn hyn heb braidd cyffwrdd â hi gan y naill na'r llall o'r dadleuwyr—yr ydym yn cyfeirio at effeithiau moesol yr athrawiaeth.

Fe welir fod Mr. E. ar ddiwedd ei ysgrif yn y rhifyn hwn, yn cymeryd y peth yn ganiataol, fel y gwna y rhan fwyaf o amddiffynwyr y fflamiau diddiwedd. Pan y mae yn lled-gyhuddo Mr. J. ac ereill sy'n cymeryd yr un olwg ag ef ar gospedigaeth ddwyfol, o'u bod yn "derbyn tâl arianol" am wneuthur yr hyn nis gwnant, nid ydyw Mr. E., fe allai, wedi ystyried ei fod wrth hyny yn euog o annghyfiawnder ac annhegwch dadleuol. Tebyg ddigon ei fod yn barnu yn gydwybodol fod yr athrawiaeth o wellhaoldeb cosp yn y byd a ddaw, yn tueddu i roi esmwythâd ac annogaeth i bechaduriaid yn eu drygioni. Y mae rhyddid iddo i ddadgan ei farn ar y pwngc, a'i hamddiffyn yn yr "Ymofynydd" fel y gallo. Ond mewn tegwch ni chaniateir iddo gymeryd y peth yn ganiatâol yn y ddadl, ac appelio at y darllenwyr fel pe bai hyny wedi ei brofi neu yn cael ei ganiatâu. Dyna beth ydyw "curo yr awyr." Yr un cystal fuasai iddo gymeryd y cwbl yn ganiatâol o'r dechreu i'r diwedd; ac yn lle ceisio ymresymu, iddo gyhoeddi ei farn yn awdurdodol, er gosod taw ar y gwrthddadleuwyr oll. Derbynied Mr. E. hyn o gerydd oddiwrthym mewn ysbryd caredig.

Y mae rheswm arall paham y carem weled trafod y pwngc yn fwy trwyadl nag a wnaed o ran hyn hyd yma yn yr "Ymofynydd," nac, a'r a wyddom, mewn un cyhoeddiad Cymreig. Y mae rhai ysgrifenwyr galluog a duwiol, y rhai a ystyrid mor ddiofn ag yr oeddynt yn ddysgedig, megis y diweddar John Foster, a Dr. Thomas Barnett. Darfu i'r gwyr enwog hyn, ar ol chwiliad dwys, gael eu hargyhoeddi nad oes un sail mewn rheswm na datguddiad i'r athrawiaeth o gospedigaeth diddiwedd; ond etto ni wnaethant yn eu bywyd eu hargyhoeddiadau yn adnabyddus i'r byd. Pa beth oedd yr achos o hyn? Y mae golygiadau Foster ar glawr yn yr "Ymofynydd" yn rhifyn Gorphenaf, 1849. Dywedodd ef y gwyddai am weinidogion ereill, duwiol a chymeradwy, y rhai oeddent yn coleddu yr un syniadau ag ef ar y pwngc; ond nad oeddent yn ystyried fod un galwad arnynt i'w gwneuthur yn adnabyddus i'r cyhoedd. Ysgrifenodd Dr. Thomas Burnett draethawd helaeth a galluog yn Lladin, "De statu mortuorum" (am gyflwr y meirw) yn amddiffyn yr un golygiadau: yr hwn, yn ol ei orchymyn ef, a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth. Ar ddiwedd y traethawd y mae yn mynegi paham yr ysgrifenodd yn Lladin, er mwyn y dysgedigion yn unig; a'i reswm dros hyny oedd, ei fod ef yn ys-

tyried nad oedd y werin, y pryd hwnw,, yn addfed i dderbyn yn ddiberygl y gwirionedd mawr a gynnwysid ac a brofid ynddo. Rhyfedd iawn! onide? Ar hyn y mae Mr. Erbery, yr hwn a gyfieithodd y gwaith i'r Saesoneg yn gofyn cwestiwn i'r pwrpas, "*Is not this like Priestcraft?* Pe anturiem i ddwyn gerbron ein darllenwyr olygiadau ac ymresymiadau Socrates ar natur a diben cosp—yr hen ddadleuwr enwog o Athen gynt, yn cael ei ddwyn yn mlaen i gywilyddio Cristnogion y 19eg ganrif—y pagan hwnw—braidd nad ystyrid ni gan lawer, yn gymaint o bagan ag yntau.

Ond ar ol y cyfan, pan y mae'r weinidogaeth Gristnogol yn ei hamrywiol ganghenau yn galw ar ddynion i ddyfod i wasanaethu Duw, y mae y cwestiwn pwysig yn ymgynnyg, Pa Dduw? Pa un ai Duw'r cariad, neu ynte Duw'r dialedd?

Yn nesaf at amddiffyn cymeriad Duw rhag y camddarluniad o'i fod yn cospi heb un amcan neu gydag amcan dialeddol, y mae o'r pwys mwyaf i argyhoeddi dynion nad oes un modd i ddiangc rhag y gosp heb adael y drwg, ac na fydd gwaredigaeth o'r poen heb lwyr ryddhad oddiwrth y pechod.

I gael terfynu bellach. Hyderwn y gwêl y darllenydd fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i symud yr amheuaeth a gyfododd Mr. D. L. E. ynghylch awdurdod Dr. S. Smith, &c,, dros yr haeriad ynghylch *kolasis*. Y mae tystiolaeth Aristotle yn bendant a phenderfynol ar y pwnge; ac mai i arwyddo cosp a weinyddir er lles y cospedig yr oedd efe a'r philosophyddion ereill yn arferyd y gair.

Y DRINDOD.

LLYTHYR V.

Mr. Ymofynydd,—Wedi i mi chwilio yr Hen Destament mor fanol ag y medrwn, a methu cael dim sylfaen i drindod yn undod, tri pherson ac un Duw, yno, y mae yn naturiol i ni bellach i droi i'r Newydd. Sicr wyf, os yw'r athrawiaeth dan sylw yn erthygl sylfaenol crefydd y Cristion, ar yr hon y mae bywyd tragwyddol yn ymddibynu, y cawn ni yma dystiolaeth eglur, datguddiad llawn o honi, Wrth ddarllen Credo St. Athanasius, Credo Nicea, Tystiolaeth Pye Smith i'r Messiah, a Duwinyddiaeth Dwight, nid oes bossibl i'r darllenydd ammau nad oes trindod o ryw fath neu gilydd yn cael ei gosod allan ganddynt, y naill fel y llall o honynt. Pe y gwnawn broffesu fy hunan yn ddiscybl i St. Athanasius, Pye Smith, neu Dwight, America, byddai yn rhaid i mi addef trindod yn y man. Nis gallwn fod yn ganlynwr i'r un o honynt heb wneuthur felly. Beth yw yr achos fy mod yn gallu darllen hanes Crist, gweithredoedd yr apostolion a'u llythyrau, heb ganfod cymmaint ag un ymadrodd eglur dros drindod? Nid oes yma un adnod yn dywedyd bod yn rhaid i ni "addoli trindod yn undod, ac undod yn drindod," neu fod yn golledig. Mae yma son am addoli ac addolwyr; mae yma son am *wir* addolwyr hefyd. "Y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae hi, pan addolo *gwir* addolwyr y Tad, mewn ysbryd a gwirionedd."

Y mae'r trindodiaid yn ymdrechu esbonio, ystwytho, a throi rhai adnodau i fod o blaid y drindod; ond er yr holl esbonio, ystwytho, a'r casglu a wnair, y mae hwn neu arall o'r trindodiaid dysgedig yn addef, un, nad yw yr adnod hon ddim yn dysgu trindod; arall, nad yw'r llall ddim drosti, nes yn y modd hyn y mae colofnau cadarnaf trindod yn undod wedi eu malurio'n llwch gan ei chyfeillion ei hun. Beth yw yr achos o hyn, ond nad yw yr athrawiaeth ddim yn amlwg o leiaf yn

y Beibl? Pwy glywodd son fod achos esbonio, dirdynu, ystwytho Credo St. Athanasius cyn y gellir casglu trindod oddiwrtho? Pwy glywodd erioed fod y gwr dysgedig hwn yn rhoddi i fynu y rhan hon, arall y rhan arall o honi, fel yn anmherthynasol i'r pwngc? Na, mae St. Athanasius yn eglur. Wel, a allasai yr Iesu, yr hwn a dderbyniodd *yr Ysbryd tuhwnt i fesur*, na neb o'r apostolion *ysbryd-oledig*, ddim llefaru mor llawn ac eglur, mor ddiamheuol a dyn anysbrydoledig ar bwngc o gymmaint pwys? Os gallasent, a phwy all wadu hyn, paham na wnaethant hyny? Y mae'n ymddangos i mi, ar dir trindodiaeth, nad yw'n bosibl i ryddhau Crist a'i apostolion o anwybodaeth, neu o'r hyn sydd lawer yn waeth. Ond yr wyf yn gadarn o'r gred na wyddai Crist na'i apostolion ddim am y drindod, ac mai dyma pam nad ydynt mor eglur arni ag y maent ar byngciau ereill, megis galwad y cenhedloedd, adgyfodiad y meirw, &c. Ond bellach at y dystiolaeth a dybir fod dros yr athrawiaeth yn y Testament Newydd.

Yr adnodau blaenaf a ddont dan ein sylw ydyw Mat. iii. 16, 17, "A'r Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr; ac wele y nefoedd a agorwyd iddo, ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colommen, ac yn dyfod arno ef. Ac wele lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd."

Dywed Piscator fel hyn, "Dyma dystiolaeth eglur dros dri pherson dwyfol; Duw'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Clywwyd llef Duw'r Tad o'r nefoedd, yn dwyn tystiolaeth i'r Mab; yr oedd y Mab ymgnawdoledg yn sefyll yn noeth yn afon yr Iorddonen; a disgynodd yr Ysbryd Glân o'r nefoedd ar Grist, ar ddull colommen."

"Dos, Ariad, i'r Iorddonen, a gwel y drindod," a fu'n cael ei harfer unwaith fel iaith fuddugoliaethus wrth yr undodwr. Ond er myned yno, ni wel y drindod a ddysgir yn gyffredin o leiaf; oblegid nid oes yma ddim cymmaint a gair yn dangos fod un o'r tri yn Dduw. Ac etto mor anghenrheidiol ydyw hyn cyn profi trindod. Y mae yn rhaid ymofyn am brawf o dduwdod, hyd yn oed y Tad ei hun, o ryw fan arall. "Felly y Tad sy Dduw, y Mab sy Dduw, a'r Ysbryd Glân sy Dduw," medd St. Athanasius. Dyna weud *ffamws* dros dri pherson dwyfol, meddaf finnau. Nid iaith y Beibl ydyw, er hyny; does dim tebyg iddo yn yr adnod dan sylw. Dos at Athanasius, a thi a gai dri pherson dwyfol; ond dos at yr Iorddonen, ac ni chai ddim gair o hyn oll.

Nid yn unig nid oes yn yr adnodau uchod ddim gair i brofi duwdod un o'r tri, er yn hollol anghenrheidiol, pe gwir fyddai trindod, ond heblaw hyny, nid oes yma ddim sill i brofi mai *un* Duw yw'r tri pherson dwyfol a dychymgu eu bod yma. "Ac etto nid ynt dri Duwiau, ond un Duw," medd Athanasius; ond nid oes dim o'r iaith hon i'w chlywed ar lan yr Iorddonen. Cofied y darllenydd mai trindod yw pwngc ein hymofyniad, neu dri yn un. A chaniattau fod tri pherson yn yr adnodau uchod, y pwngc yw, ble mae'r tri yn *un?* Ni wna'r tri heb yr *un* ddim o'r tro; ddim mwy na'r un heb y *tri*. Gan hyny os oes tri yma, nid oes yma un *drindod* er hyny. Mae'r prawf yn wan ynte; neu yn hytrach nid oes yma yr un prawf oll.

Yn nesaf, yr wyf yn sylwi fod y fath iaith yn cael ei harfer am yr Ysbryd a'r Mab ag sydd yn hollol anghysson a duwdod y naill a'r llall o honynt. Am yr Ysbryd, dywedir mai Ysbryd Duw ydyw, ac nid "*Duw Ysbryd Glan.*" "Ac efe a *welodd* ysbryd *Duw* yn disgyn fel colommen, ac yn dyfod arno ef." Nid yn unig dywedir yma mai Ysbryd Duw ydyw, ond y mae'n cael ei weled hefyd; "ac efe a welodd Ysbryd Duw." Ond dywed yr ysgrythyr, "Ni welodd neb Dduw erioed." Dywedir hefyd ei fod yn *disgyn* fel colommen, ac yn *dyfod* ar yr Iesu; ond addefir gan bawb fod Duw yn hollbresennol, ac nas gall symmud o fan i fan, nac fel colommen nac fel dim arall. Am Iesu, dywedir iddo gael ei fedyddio! "A'r Iesu wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr." Bedyddio Duw, aïe! A ydyw'r fath iaith ddim yn sawri o gabledd yn hytrach na gwirionedd syml gair Duw! Efallai y dywed rhyw drindodwr, bellach, na, nid fel yr oedd yn Dduw y cafodd ei fedyddio, ond fel yr oedd yn ddyn. O'r goreu, meddaf finnau; o ble, bellach, y cai di drindod yn yr adnodau dan sylw, gan mai dyn yw un o'r personau, yn ol dy gyfaddefiad dy hun? A oes rhyw brawf o dduwdod Crist yn yr adnod hon?

Cafodd ei fedyddio; 'dyw hyny ddim yn brawf o'i dduwdod; *aeth* yn y fan i *fyny* o'r dwfr. A weli di Dduwdod yma, yn ei waith yn symud o fan i fan? 'Does bossibl, greda'i. Disgynodd yr Ysbryd fel colommen, ac a aeth arno ef. A oes duwdod yma? Pa angen i'r Ysbryd ddisgyn arno os Duw oedd ef? Wel, os nad yw duwdod y Mab hyd yn hyn wedi cael ei amlygu, nid oes dim rhagor yma; oblegid am yr Iesu a gafodd ei *fedyddio*, a *aeth i fynu* o'r dwfr, ac a *dderbyniodd yr Ysbryd*, y mae'r llef nefol yn dywedyd, "*Hwn* yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Yn wir y mae rhyw beth yn dra chwithig yn y meddwl fod un Duw hollbresennol yn disgyn ar Dduw hollbresennol arall, ac un arall wedi hyny yn ei gyhoeddi yn fab iddo!

Y mae'n amlwg i mi mai yr un meddwl sydd yma ag mewn mannau eraill o'r ysgrythyr, sef, i'r Iesu gael ei gymmwyso i waith pwysig y weinidogaeth trwy dderbyn yr Ysbryd Glân, neu y doniau gwyrthiol i'w alluogi i gyflawni ei swydd. Felly y cawn yn Ioan iii. 34. "Canys yr hwn a anfonodd Duw sydd yn llefaru geiriau Duw, oblegid nid wrth *fesur* y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr *Ysbryd*," Act. x. 38. "Y modd yr *eneiniodd* Duw Iesu o Nazareth â'r Ysbryd Glân ac â nerth." Y mae'r ymadrodd yma, ac yn yr adnod dan sylw yn lled gyffelyb: Iesu yn cael ei *eneinio* â'r Ysbryd Glân sydd yma; Ysbryd Duw yn *dyfod ar* Iesu sydd yno. Eneinio yw *arllwys olew ar* y person. Ond i fyned ym mlaen. Cawn y geiriau hyn yn Act. ii. 33, "Am hyny, wedi ei dderchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth hwn yr ydych chwi yr awr hon yn ei weled ac yn ei glywed," Heb. i. 9. "Ti a geraist gyfiawnder ac a gaseaist anwiredd; am hyny y'th eneiniodd Duw sef dy Dduw di, ag olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion." Felly os wrth Ysbryd Duw, neu yr Ysbryd Glân, y meddylir galluoedd gwyrthiol, dyna drindod yn hollol ddisail iddi ar lan yr Iorddonen.

Nid yr undodiaid yn unig sydd yn dal mai nid person yr Ysbryd Glân sydd i'w ddeall wrth Ysbryd Duw, ond llawer o drindodiaid dysgedig a ddywedant yr un peth. Wele farn un o honynt yn canlyn. "Nid person yr Ysbryd Glân oedd Ysbryd Duw," medd Rosenmuller, "oblegid ni ellir priodoli symmudiad lleol i fôd hollbresennol; ond rhyw ymddangosiad disglaer, yr hwn a ddisgynodd o'r cymylau, yr hwn oedd gysgod-lun *(symbol)* o'r Ysbryd Glân. Wrth yr ymadrodd hwn y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn deall *doniau ardderchog;* tyb a gefnogir gan y rhanau hyny lle dywedir fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn dysgu pob peth trwy yr Ysbryd, megis, Mat. iv. 1; xii. 28; Luc iv. 18, 21; Act. x. 38. Y mae'n deilwng o sylw, fod ysbryd, yn ol y priod-ddull Hebraeg o lefaru, yr hyn y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn ddefnyddio yn gyson, yn fynych yn cael ei arfer am unrhyw allu meddwl, ac fod RWACH JEHOVAH, *pneuma theou*, Ysbryd Jehofah, neu ysbryd Duw yn arwyddoccau nerth y meddwl, yn cael ei hynodi yn fawr iawn. Y mae'r ymadrodd hwn yn fynych yn arwyddo mawrfryd neu wrolder neillduol; a dywedir fod Ysbryd Duw yn dyfod ar ddynion, pan y maent yn cael eu haddasu mewn modd neillduol i gymeryd unrhyw swydd bwysig arnynt. Gwel Barn. iii. 10; vi. 34; xi. 28; xiv. 7, 19; xv, 14; *compared with* xvi. 19, 20; Isa. lxi. 1. Gan hyny, pan y dywedir yn yr adnod dan sylw [Mat. iii. 17] fod Ysbryd Duw wedi disgyn ar Iesu, y meddwl yw, tuhwnt i amheuaeth, ei fod yn awr, wedi iddo gael ei gynhyrfu yn ei feddwl, yn penderfynu dechreu ei weinidogaeth yn eofn, neu i gymeryd arno swydd anhawdd y Messiah, yr hon oedd yn llawn o gyfyngderau a pheryglon." Gan fod trindodwr yn dywedyd felly, ai gormod i mi ddywedyd, dyna un adnod etto wedi myned at y *rhest?* a chaiff aros yna hefyd, o'm rhan i.

Yr adnod nesaf yw Mat. xxviii. 18. "Ewch *gan hyny*, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan."

Y mae'r un peth yn fyr yn yr adnod hon etto ag oedd yn yr un flaenorol. Ni ddywed yr adnod wrthym, "Gan eu bedyddio yn enw Duw'r Tad, Duw'r Mab, Duw'r Ysbryd Glân, tri pherson ac un Duw." Nid oes yma un gair i'n cyfarwyddo, a dangos i ni fod y tri yn Dduw, bob un ar ei ben ei hun, ac wedi gwneuthur hyny, dywedyd wrthym nad oes ond *un Duw* wedi y cyfan. Mor wahanol yw'r adnod

hon, etto, i eiriau St. Athanasius ar yr un pwngc; ïe, bid sicr, os yw'r drindod yn bwngc yr adnod hon.

Caniattewch i mi fod ychydig bach yn fwy manol ar yr adnod hon, geiriau'r *commissiwn*, fel eu gelwir. Wel, ni a'i dechreuwn hi etto. "Ewch *gan hyny*, a dysgwch," &c. Beth yw'r *gan hyny* yma? Mae yma gyfeiriad at ryw eiriau o flaen yr adnod hon, fel rheswm paham y dylai dysgyblion Crist fyned i ddysgu (dsgyblu, yn hytrach) yr holl genhedloedd. Beth yw y rheswm pam? A oes ganddynt ddigon o awdurdod? Os Duw yw Crist, mae'r awdurdod yn eithaf digon, rhaid addef; ac os yw yr adnod dan sylw yn dysgu trindod, felly y mae'n bod hefyd. "Ewch gan hyny," hyny yw, yn ol trindodiaeth, am fod Iesu yn Dduw. Ewch a dysgwch yr holl genhedloedd, mae eich awdurdod yn ddigon, yn eithaf digon at y gwaith. Mae'r Iesu yn Dduw, nid oes eisiau rhagor. Ond, *ond*, ai dyma iaith y *Beibl* yw'r pwngc! Nage, meddaf, nid dyma y rheswm a rydd Crist, ein Hiesu anwyl, dros fyned allan i'r byd i fedyddio yn ei enw ef, ond, clywch drindodiaid, *ond* i'r gwrthwyneb yn hollol y dywed ef fel hyn yn yr adnod o flaen yr un dan sylw; "A'r Iesu a ddaeth ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, *Rhoddwyd* i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; ewch gan hyny," neu fel y mae Griesbach yn darllen, "Ewch a dysgwch yr holl genhedloedd," &c. Derbyn yr awdurdod wnaeth Crist, chwi welwch; felly yn sicr, nid Duw oedd; a thyma un o'r personau dwyfol yn dderbyniwr awdurdod gan arall; er fod yr awdurdod yn fawr, a mawr iawn mae'n wir, er hyny, ei derbyn hi wnaeth yr Iesu; ac felly wele un o'r personau dwyfol wedi troi'n ddyn rhwng ein dwylaw.

Ond dywedir, gan fod yr enwau Tad, Mab, ac Ysbryd yn cael eu harfer gyda'u gilydd, yn yr un adnod, fod yn rhaid fod pob un o honynt yn dduw gogyfuwch a gogystal a'u gilydd. O bob gwendid, dyma'r gwanaf! Beth a allasai beri i ddynion dynu'r fath gasgliad, a'r ysgrythyr o flaen eu llygaid, nis gwn. Beth! gan fod y tri yn cael eu harfer yn nghyd, yna rhaid eu bod bob un o honynt yn Dduw, aiê! Gwell iti, pwy bynnag wyt, i alw dy air yn ol, greda'i, onide daw rhagor na thri person yn *claimo* hawl yn y duwdod. Cawn Moses a Duw gyda'u gilydd, mewn cyssylltiad agos yn y manau canlynol, Exod. xiv. 31: "A'r bobl a *ofnasant* ac a *gredasant* i'r *Arglwydd* ac i'w was ef *Moses*." Num. xxi. 5—7: "A llefarodd y bobl yn erbyn *Duw* ac yn erbyn *Moses*, paham y dygasoch ni o'r Aipht, i farw yn yr aniatwch. * * * A'r Arglwydd a anfonodd yn mysg y bobl seirph tanllyd, a hwy a frathasant y bobl, a bu farw o Israel bobl lawer. A daeth y bobl at Moses, â dywedasant, *pechasom*, canys llefarasom yn erbyn yr *Arglwydd*, ac yn dy erbyn *dithau*." 1 Chron. xxix. 20: "A'r holl dyrfa a fendithiasant Arglwydd Dduw eu tadau, ac a ymgrymasant i'r (Saes'neg, *worshipped*, *addolasant* yr) *Arglwydd*, ac i'r *brenin*." 1 Sam. xii. 18: "A'r Arglwydd roddodd daranau a gwlaw y dydd hwnw, a'r holl bobl a ofnodd yr *Arglwydd* a *Samuel* yn ddirfawr." 2 Chron. xx. 20: "Jehosaphat a ddywedodd—credwch yn yr *Arglwydd eich Duw*, a chwi a sicrheir; coeliwch (credwch) ei *brophwydi*, a chwi a ffynnwch;" ac yn pen xxxi. 8: "A phan ddaeth Hezeciah a'r tywysogion, a gweled y pentyrau, hwy a fendithiasant yr *Arglwydd* a'i *bobl Israel*." Diar. xxiv. 21: "Fy mab, ofna *Dduw* a'r *brenin*." Act. vi. 11: "Nyni a'i clywsom ef yn dywedyd geiriau cabledd yn erbyn *Moses* a *Duw*." 1 Thes. ii. 10: "Tystion ydych *chwi* a *Duw* hefyd," 1 Tim. v. 21: "Gorchymyn yr ydwyf gerbron *Duw* a'r *Arglwydd Iesu*, a'r etholedig *angylion* gadw o honoch y pethau hyn heb ragfarn." Y mae enw Duw etto yn cael ei arfer mewn cyssylltiad a phethau *difywyd*, yn 1 Sam. xxv. 32, 33: "A dywedodd Dafydd wrth Abigail, bendigedig fyddo *Arglwydd Dduw* Israel—bendigedig hefyd fyddo dy *gynghor*, a bendigedig fyddych *dithau* hefyd." Dyma drindod etto, onide?!! Dat. iii. 12: "Yr hwn sydd yn gorchfygu—mi a ysgrifenaf arno enw fy *Nuw* i, ac enw *dinas* fy *Nuw* i, yr hon yw Jerusalem Newydd—ac mi a ysgrifenaf arno fy enw newydd i." Trindod arall etto. Yn awr, os yw gwaith enwau y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn dyfod nesaf at eu gilydd yn profi eu bod yn dduwiau, prawf yr un ymresymiad hefyd fod Moses, y brenin Dafydd, prophwydi Duw, pobl Israel i gyd, (dyma lu glân o bersonau dwyfol!) Abigail a'i chynghor, dinas Duw, bob un o honynt yn dduwiau; oblegid y

maent oll yn cael eu harfer mewn cyssylltiad â Duw, yr un geiriau yn cael eu harfer am danynt, a hyny mewn gweithredoedd o *addoliad* weithiau hefyd. Ond nid oes neb mor ffol o chasglu fod y brenin yn gystal a Jehofa yn Dduw, serch fod addoliad yn cael ei dalu iddynt. Na, na; er fod yr un geiriau yn cael eu harfer am danynt, y mae digon o wahaniaeth rhyngddynt. Duw anfeidrol yw un, dyn meidrol yw y llall, ac felly ni waeth beth fo'r geiriau a arferir am danynt, bydd anfeidroldeb rhyngddynt o hyd. Ac os nad teg yw casglu fod Moses, Dafydd, ac ereill yn dduwiau, nid teg yw casglu fod y "dyn Crist Iesu" yn dduw chwaith, serch fod ei enw yn cael ei arfer gyda Duw yn yr un adnod.

Os mai o herwydd fod bedydd yn, neu i, gael ei weinyddu yn enw'r tri, ac felly fod addoliad dwyfol yn cael ei dalu iddynt, os mai oddiwrth hyn, meddaf, y cesglir fod yma dri pherson dwyfol, y mae yma gamsyniad mawr. o herwydd profai y dull hwn o ymresymu fod Moses unwaith etto yn berson dwyfol. 1 Cor. x. 1. 2: "Ac ni fynwn i chwi fod heb wybod, frodyr, fod ein tadau ni oll dan y cwmmwl, a'u myned hwy oll trwy'r môr, a'u *bedyddio* hwy oll i *(eis)* Moses yn y cwmmwl ac yn y môr." Prawf hyn ragor eto, sef fod Ioan fedyddiwr yn Dduw; Act. xix. 3: "I ba beth gan hyny y'ch *bedyddiwyd* chwi? Hwythau a attebasant i *fedydd* Ioan." Ar y tir hwn y mae tân yn berson dwyfol; Luc iii. 16: "Ond y mae un cryfach na myfi yn dyfod, efe a'ch bedyddia chwi a'r *Ysbryd Glan* ac a THAN." Nid dyma'r cyfan o bersonau dwyfol a gawn chwaith; eithr yn ol yr ymresymiad uchod y mae *marwolaeth* Crist yn berson dwyfol; Rhuf. vi. 3, 4: "Oni wyddoch chwi am gynnifer o honoch ac a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w *farwolaeth* ef." Ddarllenwyr hynaws, yn lle fod bedyddio yn enw Crist yn un prawf o'i dduwdod ef, y mae'n brawf pendant mai dyn marwol oedd ef; oblegid cynnifer ag oeddent yn cael en bedyddio i Grist, yn amser Paul, yr oeddent yn cael eu bedyddio i'r grediniaeth ei fod ef wedi marw, ac i fod yn foddlon i'r un dynged ag yntau eu hunain. I beth y bedyddir dynion yn awr? I'w dduwdod, onide; i'r grediniaeth nas gallasai farw; ond nid oes neb a dau lygad yn ei ben, na wel fod gwahaniaeth mawr rhwng y bedydd apostolaidd a bedydd o'r fath hyn.

Nid yw bedyddio yn enw Crist ddim yn arwyddo dim amgen na bedyddio i'w athrawiaeth ef. Mae enw Crist, fel eiddo Moses, yn sefyll yn fynych am athrawiaeth Crist a chyfraith Moses. Bydd esiampl yn ddigon i ddangos hyn. Luc xvi. 20, "Y mae ganddynt Moses a'r prophwydi, gwrandawant arnynt hwy;" h. y., Y mae ganddynt gyfraith Moses a gwaith y prophwydi. Gwel hefyd Act. xv. 25; Luc xxiv. 27. Felly hefyd y mae'r gair Crist yn arwyddo athrawiaeth Crist. Act. viii. 5. "Yna Philip a aeth i wared i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt;" h. y., athrawiaeth Crist. Gwel etto, Act. xv. 25, 26; Mat. xix. 29; Luc xxi. 17. Bedyddio yn enw, neu i enw Crist, ynte, yw bedyddio i grediniaeth yn ei athrawiaeth ef fel y Messiah.

Yr wyf yn sylwi ymhellach etto, pe buasai'r ffurf hon yn y commissiwn, fel ei gelwir, yn cynnwys anhepgorion Crist nogrwydd a bywyd trag'wyddol, athrawiaeth raid ei chredu neu fod yn golledig, gellsid disgwyl y buasai apostolion Crist yn gosod cymmaint o bwys arni, fel ag i'w harfer bob amser, heb golli gymmaint ag un waith. Ai felly y mae'n bod? Nage, nage; ond i'r gwrthwyneb yn llwyr. Nid yw geiriau'r *commissiwn* BYTH yn cael eu harfer ganddynt wrth fedyddio a son am fedydd. Act. ii. 38: "A Phedr a ddywedodd wrthynt, edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn *enw Iesu Grist*," &c. Y peth sydd yn rhyfedd yn yr adnod hon yw, fod yma son *am* yr Ysbryd Glân, ond dim bedydd yn ei enw ef; "a chwi a dderbyniasoch ddawn yr Ysbryd Glân!!!" Act. viii. 16: "Ond yr oeddent yn unig wedi eu bedyddio yn *enw yr Arglwydd Iesu.*" Y mae son am yr Ysbryd Glân yn yr adnod hon etto, ond dim yn rhagor!!! Gwel yn mhellach Act. xix. 5; Gal. iii. 27; Rhuf. vi. 3. (Gobeithio y gwnaiff y darllenydd droi at yr adnodau hyn.) Wele yr holl fanau lle y sonir am fedydd, neu y cyfeirir atto gan yr apostolion; ac y mae'n amlwg mai yn enw Crist yr oeddent hwy yn bedyddio yn wastad. A allasai yr apostolion ymddwyn felly a geiriau'r commissiwn yn eu clustiau, os oeddent mor anghenrheidiol, pryd hyny, ag y tybir eu bod yn *awr?* O ble'r fath wahaniaeth? Dylid cofio hefyd fod Pedr, ar ddydd y Pentecost, yn gorchy-

myn bedyddio yn enw Crist yn unig, a hynny "cyn nemawr o ddyddiau" ar ol i'r commissiwn gael ei roddi!! Oddiwrth y cyfan ymddengys fod sylfaen gadarnaf trindodiaeth heb nemawr os dim, cadernid ynddi."

Bedyddio yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân yw bedyddio i'r Tad fel awdwr, i'r Mab fel cyhoeddwr, ac i'r Ysbryd Glân fel sêl Duw (y gwyrthiau) i sicrhau'r gwirionedd. Ac y mae bedyddio yn enw Crist yn atteb yr un diben, gan fod athrawiaeth Crist yn cin dwyn i adnabyddiaeth o'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân yn yr ystyr a enwais.

Fe allai mai nid ammhriodol sylwi wrth fyned heibio, er nad wyf yn ymorphwys fawr ar hynny, fod rhai dynion dysgedig yn ammau purdeb yr adnod dan sylw, o herwydd nad yw'r apostolion byth yn defnyddio y ffurf hon wrth fedyddio; ac "o herwydd fod Eusebius, hanesydd dysgedig yr eglwys, yn difynu'r testyn hwn *naw* gwaith, ond bob amser heb y geiriau, 'Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân;' ei fod ef yn darllen fel hyn, 'Dysgwch yr holl genedloedd yn fy enw i, gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi,'"

Dywed Dr. Bloomfield "mai bedyddio yn enw un yw ymrwymo i gadw'r ordinhadau crefyddol a sefydlwyd ganddo." Dywed Holden, "mai bedyddio yn enw un yw enlistio yn ei wasanaeth; a phan byddo'r person yn Dduw, ei fod yn arwyddo addoliad a gwasanaeth dwyfol." Felly y mae'n rhaid chwilio am brawf o'r drindod o ryw le heb oddiwrth fedydd yn enw'r tri; oblegid nid yw bedydd o hono ei hun ddim yn ddigon, yn ol barn Holden. "Gorchymynwyd i'r Cristnogion," medd Hugo Grotius, "i gyfaddef tri awdwr eu crefydd, Y Tad, Mab, a'r Ysbryd; ac i beidio derbyn dim fel yn angenrheidiol nad oedd yn deilliaw oddiwrthynt hwy, nad oedd wedi dechreu gyda'r Tad, wedi ei ddatguddio gyda'r Mab, a'i egluro yn fwy helaeth a'i selio gan yr Ysbryd Glân. Oblegid, megys y dywed Hilari, yr oedd y bedydd yn cael ei weinyddu fel cyfaddefiad o'r awdwr, o'r unig-anedig Fab, ac o'r DAWN. Y mae Le Clerc, Whitby, Archesgob Tillotson, Schleutraer, ac eraill, yn esbonio ffurf bedydd, fel yn gosod allan grediniaeth yn yr *athrawiaeth* ynghylch y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Y mae eraill yn esbonio'r geiriau yn hollol undodaidd; ond ni chaf ddyfynu gwaith neb o honynt, namyn dernyn bychan o waith J. D. Michaelis:—"Gwyddom," ebe fe, "pa mor fynych y difynir yr adnod hon fel prawf o athrawiaeth y drindod, gan lawer, yn wir, y rhai nid ydynt yn credu'r athrawiaeth hon, ond yn dymuno cloddio tani o bosibl. Y mae'n rhaid i mi addef, nad wyf yn edrych arni yn y goleu hwn [sef yn brawf o'r drindod]. Nid yw duwdod tragwyddol y Mab—er yn cael ei ddysgu yn eglur mewn manau eraill, yn enwedig Ioan i. 1—16, a Rhuf. xix. 5—ddim yn cael ei enwi unwaith yma; ac y mae'n ammhosibl deall oddiwrth yr adnod hon, pa un a ydyw'r Ysbryd Glân yn berson ai peidio.—Darllenwch yn unig yr ail bennod o'r Actau, lle y bedyddiwyd tair mil yr un dydd. Beth wyddai y bobl hyny am dduwdod Crist, pan nad oedd Pedr yn ei bregeth wedi dywedyd un gair am hynny? Beth wyddent hwy am bersonoliaeth yr Ysbryd Glân?" *Well done*, Michaelis! Buasai yn dda gennyf osod y cyfan a ddywed ef o flaen eich darllenwyr, Mr. Ymofynydd; ond yr wyf eisioes wedi bod yn faith, rhy faith wrth fodd llawer oddyniou byr eu hanadl fi wn; gan hynny, terfynaf, trwy ddywedyd etto unwaith, *well done*, Michaelis. Ni allasai Priestley ei hun ddim dyweud yn well. Ydwyf bellach bron maes o anadl, fel fy narllenydd; yr eiddoch yn garedig,

O. EVANS.

TRAETHAWD AR ONESTRWYDD;

TESTUN REES H. RHYS, YSW., ERBYN EISTEDDFOD Y "CARW COCH," HEOL HARRIET, ABERDAR, MEHEFIN YR 8FED, 1846.

Y MAE onestrwydd yn faes mor eang ac olrheiniedig, fel mai anhawdd iawn yw gwybod pa le i ddechreu traethu arno, ac yn neillduol felly i'r ysgrifenydd, yr hwn sydd efrydydd ieuanc na ysgrifenodd draethawd ericed o'r blaen; ond gan fod

testun ein teilwng Lywydd mor ddymunol a hyfryd, nis gallaf, er gwaned wyf, lai na chynnyg rhai sylwadau arno goreu ag y medraf.

Wrth Onestrwydd y deallir yn gyffredin yn fwyaf neillduol, unionder a didwylldra mewn pethau tymhorol, neu mewn geiriau ereill, mewn pob math o fasnach bydol. Yr egwyddor hon yw y ddolen werthfawrocaf a'r mwyaf anghenrheidiol i'w chadw yn ddihalog o yr amrywiol ddolenau a wnant i fyny y gadwyn fawr a rwyma ac a gylyma y gymdeithas ddynol yn ddiogel wrth eu gilydd. Nid oes yn ddichonadwy ei hebgor; pwy bynnag a'i tyr, ïe, pwy bynnag a'i haloga yn y mesur lleiaf, a fydd, y fynyd y gwna hyn, yn hau hadau ysgariaeth—cenfigen—a dyoddefaint—yn mhlith dynolryw; bydd yn creu anghariad ac annedwyddwch yn mysg ei frodyr, y teulu mawr dynol, â dedwyddwch pa un y mae yr eiddo ef ei hunan yn anwahanadwy gysylltiedig bob amser. O ganlyniad, bydd y dyn hwn yn tynu gwae, dinystr, a phoenedigaeth, ar ei ben ei hun yn gogystal ac ar eraill o'i frodyr.

Y rhinwedd hon yw enaid masnach, ac heb fasnach—heb gyfnewidiad nwyfau y naill â'r llall, pa beth yw dynolryw? Nid ydynt mwy yn gymdeithas frawdol—nid ydynt mwy yn un teulu mawr megys brodyr a chwiorydd yn cyd-ddwyn beichiau ac yn ymdrechu dedwyddoli y naill y llall, eithr yn anwariaid; pob gwlad, pob cymydogaeth, mewn gair, pob dyn, i fyw yn unigol, yn anymddibynol, ar ei ben ei hun, i ddysgwyl yn hollol wrtho ei hun am bob cysuron bywyd, fel ag oedd Alexander Selkirk yn Ynys Iouan Fernandes gynt! Ond fel y mae achos gorfoledd, er cymaint o dwyll ac anonestrwydd sydd mewn dynion, y mae etto gymaint o onestrwydd yn y byd ac sydd yn ein cadw ni oll o'r cyfiwr truenus a gresynus oedd Alexander Selkirk ynddo. Wel ynte, gan mai onestrwydd yw enaid masnach, a bod masnach yn anhebgorol angenrheidiol er cysur a hawddfyd yr hil ddynol, onid dyledswydd arbenig arnom bawb yn gyffredinol ydyw ei harferyd yn ein holl drafnidaeth a'n gilydd bob amser. O! yn awr, pwy yw y dyn a dwylla ei frawd? O! pwy yw y gwallgofddyn a feiddia y rhyfyg-ynfydrwydd, a'r melldigedigrwydd i ddiystyru a sathru dan draed y foneddiges brydferth a siriolwedd hon? Er gwarth dynoliaeth a'r byd gwareiddiedig, rhaid atteb eu bod yn aml iawn, o y cardotyn cefnllwm fry i'r urddasaf yn y wlad. Faint o'r cardotwyr a grwydrant hyd y byd, sydd yn ffugio analluogrwydd, megys byddarni, mudandod, dallineb, cloffni, &c., gan ffurfio rhyw chwedlau anffodus, anwireddus, er mwyn twyllo yr haelionus a'r trugarog o galon? Onid diffyg onestrwydd yw hyn? Faint o ddynion a arferant y geiriau mwyaf teg a deniadol er darbwyllo eu cyd-ddynion i roddi eu nwyfau iddynt, a phan y byddont gwedi myned i ddyled drom, yn troi eu cefnau am byth ar eu gofynwyr, *(creditors)*, pa rai, efallai, fo gwedi eu cadw lawer gwaith rhag newynu? Onid absenoldeb onestrwydd o'r galon a bery hyna? Faint o ddynion a ânt at gymydog fo y byd yn gwenu arno, gan wneyd chwedl hirfaith am eu tlodi a'u cyfyngder,—bod arnynt eisiau cymaint a chymaint o arian at rhyw achos neillduol, ac os gwelai efe yn dda o'i haelioni a'i drugaredd i roi benthyg cyfran o arian iddynt, y gwnelent ei ad-dalu yr amser y penodai efe ei hun, yn nghyda llôg o ddiffuant diolchgarwch, a mil miloedd o fendithion ar ei ben; ac yntau o gariad a thosturi yn rhoi benthyg penadur—dau neu dri, mwy ueu lai, fel bo eu hanghen, ac heb feddwl dim am eu hanonestrwydd, ond a'i fynwes yn llawn mwyniant a dedwyddwch wrth gael cyfleu i wneyd cymwynas a brawd trallodus, yn dweyd wrthynt am eu talu fel y gallont, a pheidio gosod eu hunain mewn trafferth; hwythau ar ol derbyn yr arian yn myned ymaith, ond nid byth gwedi hyny yn tywyllu ei ddrws; a phan geisiai yr arian yn cael ei frathu a'i rwygo ganddynt fel y dyn hwnw a gymerodd y sarff oedd gwedi sythu yn yr oerfel i'w dy i achub ei bywyd! Onid onestrwydd sydd ar alltndiaeth o fynwesau y rhai'n? Faint o ddichellion a chyfrwysdra a arferir yn aml mewn ffeiriau, &c., wrth brynu a gwerthu? Clywir un, am geffyl bron yn ddall ac o olwg gweddol dda, yn dyweyd fod pob peth yn eithaf da arno; ond mai ei "olwg" oedd y gwaethaf. Y dyn onest, yntan yn anwybodus o ddichellion cyfrwysddyn, yn cymeryd yn ganiataol mai am wedd ei gorff ac nid ei olygon neu ei lygaid y dywedai y gair "golwg," ac felly yn rhoddi pris da am y ceffyl. O'r ochr arall, y prynwr efallai yn cael buwch neu geffyl gan

gymydog gwan ar goel, hyd ffair ddiweddaf y mynydd neu y pentref, (fel y maent yn ei galw, gan feddwl wrth hyny y ffair ddiweddaf yn y flwyddyn hono,) ond pan deuai y ffair, y prynwr anonest yn dywedyd wrth y gwerthwr druan, mai y ffair ddiweddaf am byth a feddyliai ef; a chan na allai y gwerthwr sicrhau mai hono oedd y ffair ddiweddaf am byth, yn gorfod bod heb ei arian! Onid diffyg onestrwydd yw pethau fel yna? Ac O! fel y mae gwaethaf y modd, faint o bersonau o ddysg a manteision mawr, a ddylent fod yn llusernau ac yn esiamplau o onestrwydd a daioni i'r annysgedig a'r anwybodus, sydd yn dirmygu yr egwyddor euraidd hon, gan ymestyn a'u holl hegni i ddiffodd y wreichionen fechan o honi sydd yn ein mysg! Beth pe rhoddid ond cip-olwg ar weithrediadau llawer o fawrion gwledydd? Byddai yn ddigon i beri i bob dyn gonest braidd i lewygu gan dristwch a gofid, yn ngwyneb eu twyll a'u hanonestrwydd. O! fel y mae amrywio wahanol fasnachwyr a chelfyddydwyr, heb enwi un o honynt mwy na'u gilydd, yn sathru yn ddiystyrllyd yn y llwch y bendefiges hawddgar a cheinwedd hon, trwy gribddeilio a hoccedi ar gefn y gwirion a'r onest, trwy gymmysgu nwyfau gwael a diwerth, a, lawer pryd, niweidiol hefyd, am ben rhai da, a'u gwerthu gwedi hyny am bris uchel yn lle y moddion goraf, trwy bwysau a mesurau bychain, a phob modd a ddichon dynion dichellgar a chyfrwys-ddrwg ddychymygu am dano. Ond i adael yr hen arferion melldigedig sydd mewn llawer iawn o werthwyr a phrynwyr, eir yn mlaen i sylwi ar effeithiau dymunol a dedwydd onestrwydd ar y gymdeithas ddynol.

Mewn teulu lle y cartrefa onestrwydd yn mynwes y rhieni, ceir clywed y tad a'r fam yn mheraidd lais cariad yn hyfforddi eu rhai bychain yn llwybrau rhinwedd ac uniondeb, cyn gynted ag y byddont yn allnog i ddeall yr hyn a ddywedant wrthynt, trwy eu dwys rhybuddio i fod yn gyfiawn, didwyll, ac onest yn mhob peth,—yn eu holl chwareuyddiaethau a'u trafnidaeth gydag eu cyd chwareuwyr,—am iddynt ochelyd gwneuthur un twyll â neb mwy na'u gilydd o blant y gymydogaeth, ac hefyd i fod yn ofalus na chymeront gymaint a phin bach mewn ffordd anonest oddiar neb o'u cymydogion, ac os godent degan fechan neu rhyw beth arall yn y maes, i gofio yn wastad geisio (fel Perrin* gynt) cael allan ei berchenog a'i ddychwelyd iddo. Diffino yw eu hyfforddiadau a'u hannogaethau i'w plant i ddilyn ffyrdd onestrwydd yn mhob peth ag at bawb, gwreng a boneddig. Y rhieni onest ydynt debyg i'r garddwr diwyd a doeth, yr hwn sydd bennydd ar ei wyliadiadwriaeth wrth drwsio ei goed-ffrwythau, a'i gyllell lem yn torri ymaith bob cangen a brigyn lleiaf a fo yn ddiffrwyth neu yn ysgogi yn annghywir i'r naill ochr neu y llall; hwythau yr un wedd at eu plant ydynt yn ymegnio yn ddidor i'w hannog a'u dysgu mewn onestrwydd, a'r man y gwelont y blagaryn lleiaf o dwyll ac anwiredd yn ymddangos yn yr ymddygiad, y maent yn union yn ei dori ymaith. Yn wir, holl ofal ac hyfrydwch penaf rhieni gonest ydyw ymdrechu hau hâd cyfiawnder ac onestrwydd yn nghalonau eu hanwyliaid bychain yn moreuddydd eu hoes, a gwneyd eu goreu na fo i'r impyn gwanaidd ac ieuanc gymeryd y gogwyddiad neu plygiad hagr-chwithig ac annghywir. Braidd na ddychymygwyf fy mod yn clywed un yn ei addysgiadau i'w blant, yn dywedyd yn ngheiriau un bardd Sacs'nig,

> "Convince the world that you are just and true,
> Be just in all you say and all you do;
> Whatever be your birth, you're sure to be
> A man of the first magnitude to me."

Ac hefyd un arall yn hen iaith Gomer, yn dywedyd yn ngeiriau yr enwog a goleudyb fardd a christion, y diweddar Barch. T. Evans,—

> "Ar lan onestrwydd rhowch eich bryd,
> Nid arfer gweniaith ffol y byd,
> Dichellion dygant ofid blin,
> I'r hwn a gais a hwynt ymdrin."

Yn awr pan tyfo y plant, a gawsant yr addysgiadau hyn, yn ddynion, O! y fath les a llwyddiant a barant yn eu cymydogaeth. O, y lles a'r bendith annhraethadwy

* Gwel "*Virtue in humble life*," yn "*Murray's Introduction.*"

ydynt yn yr ardaloedd y trigant. Ceir hwynt yn ymegnio a'u holl alluoedd i fwrw ymaith pob hoced a thwyll o'r byd; ymfucheddant hyd eithaf eu gwybodaeth yn unol a'r addysgiadau a'r esiamplau onest a gawsant gan eu rhieni rhinweddol; y maent yn gyfiawn a didwyll yn eu holl ffyrdd, mewn iaith a gweithred tuag at bawb yn hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog. Diffyg addysg boreuol rhinweddol yw y prif achos o'r twyll a'r anonestrwydd sydd yn mhlith meibion gwragedd. O! na byddai pennau ieuluoedd onest yn amlach yn y byd, er addysgu ac hyfforddi eu plant yn llwybrau rhinwedd a daioni, er tywys y meddwl ieuanc hyd flodeuogddiogel, a dedwydd lwybr onestrwydd a chyfiawnder, fel y delo dynolryw yn nes at y sefyllfa y dylent fod fel bodau rhesymol, sef un gymdeithas frawdol ac heddychol dros holl wyneb y ddaear, gan gydnabod ei thrigolion megys un teulu mawr a phawb o'r hil ddynol yn mhob cwr, ein brodyr a'n chwiorydd, yn blant yr un tad cariadlawn, ac yn wrthddrychau ei ofal a'i gariad, y naill yr un wedd a'r llall.

(*Fw barhau.*)

TAENU CRISTNOGRWYDD.

YR ydym yn byw mewn amser pan y teimlir, yn fwy nag a deimlwyd er ys oes oedd lawer, y ddyledswydd o daenu Cristnogrwydd. Y mae cyffro ac ymegniad a zel llawer o'n hamgylch ar waith yn yr achos da hwn. Y mae hyd yn oed y rhai yr ymddengys nad ydynt wedi eu llwytho a gormodedd o dduwioldeb eu hunain, o ddifrif am ei roddi i eraill. Y mae gweithgarwch llaweroedd ar laweroedd yn tueddu yn gryf yn y cyteryd hyn; a chan fod dynolryw wrth naturioeth yn aflonydd, ac yn gofyn lle i weithio, ac y mynant wneuthur drwg yn hytrach na gwneuthur dim, y mae yn achos o lawenydd i garwr dynoliaeth fod y llwybr newydd hwn wedi ei agor i ddwyn ymaith yr hyn oedd dros ben digon o ailuoedd gweithgar y werin, hyd yn oed pe na byddai un daioni arall i ddyfod oddiwrtho.

Gobeithiwn, modd bynnag, am lawer o ddaioni arall. Tra y mae annogaethau ag nad ydynt eud isel, a chynhyrfiadau o wylltineb crefyddol yn rhoddi bywyd a gweithredlad i amryw gymdeithasau llnosog yn ngwledydd cred; tra y mae chwennychiad am gael y blaen a'r llywodraeth mewn rhai dynion, chwennych ymgasglu at eu gilydd mewn dynion eraill; ac yn mhawb chwennychiad am wneuthur rhyw beth mawr ac yn mhell o dref—tra y mae y pethau hyn yn cyfodi i fyny sefydliadau nerthol; hyderwn fod llawer o Gristnogion cywir yn cael eu llywodraethu yn y materion hyn, gan wir ddymuniad i daenu Cristnogrwydd. Y maent wedi profi fod yr efengyl o'r lles mwyaf, a dymunant ei chyfranu i'w cyd-greaduriaid. Y maent wedi drachtio o Ffynnon y Bywyd, a dymunant roddi allan ei ffrydiau i lawenychu pob diffeithwch ac anmghyfanneddle, ac i lenwi a disychedu pob enaid ofnus a chystuddiedig. Tröant at y rhanau proffwydoliaethol o'r ysgrythyrau, a chan eu hesbonio yn ol eu dymuniadau, gobeithiant fod cyfnewidiad buan i gymeryd lle yn nghyflwr moesol y byd, ac y maent yn llawn o awydd i ddwyn yn mlaen y gwaith o'r adnewyddiad mawr. Eu bod yn gwneud daioni nid oes ammheuaeth genym, er efallai nad yn y ffordd y tybiant neu yr ewyllysient hwy. Pe bai i'w hymdrechiadau gwrdd a llwyddiant cyffredinol, byddai hyny fe allai yn y diwedd yn niweidiol i Gristnogrwydd. Y maent yn anfon allan gyda Gair Duw, esboniadau llygredig o ranau o hono; yr hyn sydd yn gwanhau i raddau mawr ei effeithiolrwydd lachawdwriaethol, ac weithiau yn ei wneud yn niwed mawr. Y maent i wneyd daioni efallai, nid trwy eu llwyddiant, ond trwy fethu llwyddo. Yn raddol y mae pethau mawrion, yn mron i gyd, yn cael eu dwyn oddiamgylch, ac mewn ffyrdd a gafwyd allan trwy dreialon afiwyddiannus, ac oddiwrth brofiad llawer.

Y llafurwyr cyntaf yn fynych ni wnant braidd mwy na dysgu y sawl a ddeuant ar eu hol, pa beth i ochelyd, a pha fodd i lafurio yn fwy effeithiol nag y gwnaethant hwy. Ond gan nad pa fodd y try y peth i maes, bydd Cristnogion cywir, y rhai

ydynt yn ymosod ar y gwaith da hwn, nid o ysbryd pleidgarwch a hunan-dyb, ond o wir ewyllys da at ddynion, ac ymlyniad at Iesu Grist, i dderbyn eu gwobr. Gellir maddeu gradd o ormoddedd yn y fath achos a hwn. Boddlonir i'r ddychymyg gael ei hennyn ar destynau eraill; i'r pwyll fyned i gysgu weithiau, a gadael i'r serchiadau ymborthi ar obeithion mwy dysglaer na sylweddol; ar fod gwladgarwch a dyngarwch a'r serchiadau teuluaidd weithiau i gael torri allan mewn ymdrechion gorfywiog, ac i gyrchu eu hameanion yn eu ffordd eu hunain, heb farnu yn rhy galed y ffordd a'r moddion a ddefnyddir. Paham, ynte, yr edrychwn gyda gwg ar bob peth a'r nad yw wedi ei drefnu yn gwbl ddoeth mewn mater ag sy'n appelio mor gryf at y teimladau, ag ydyw ymdaeniad Cristnogrwydd? Gall dynion fod yn rhy bwyllog, fel yn rhy daullyd; ac y mae'r dyn hwnw sydd a'i daer ddymuniad am weled troedigaeth y byd, yn cyfodi i ddisgwyliad bywiog fod y cyflawniad gerllaw, a'r hwn sydd yn cymeryd rheol a mesur ei ddyledswydd oddiwrth y dysgyblion cyntefig, yn meddu ar ysbryd anngydmarol ragoriach na'r dyn, yr hwn, oddiar gred fod cyflwr moesol y byd mor sefydlog a chyfreithiau natur, ac yn cymeryd esgus dros ei ddiogi oddiwrth ei philoshphi oerllyd, nid yw yn teimlo dros y tyrfaoedd sy'n gorwedd mewn tywyllwch, nag yn gwneuthur dim er taenu y grefydd ac y mae'n credu ei bod wedi dyfod o'r nef.

Y mae un perygl, pa fodd bynnag, ar gyfnod fel y presennol, pan y mae'r fath ymgais i ddanfon yr efengyl i wledydd pellenig, sydd yn galw yn uchel am ystyriaeth. Y perygl ydyw o esgeuluso y moddion goreu tuag at daenu gwybodaeth o Gristnogrwydd; y perygl o bassio heibio yn ddisylw ddyledswyddau sydd yn fwy amlwg eu rhwymedigaethau throi paganiaid i'r ffydd; y perygl o annghofio beth a ddylem ei wneud dros ein cartref ac yn ein teuluoedd. Yn llyn yma, fel yn mron gyda phob peth arall, fe welir fod ein dyledswyddau mwyaf pwysig yn rai tawel, annghyoedd, dystaw, yn galw ond ychydig o sylw, ac yn gweinyddu ond ychydig at gyffroad y ddychymyg

Yr ymdrechiadau mwyaf sicr o lwyddo er ymdaeniad Cristnogaeth, ydynt y rhai nad oes ond ychydig yn cymeryd sylw o honynt, nas cof-restrwyd mewn un cyhoeddiad misol, nas cyhoeddwyd ar un cyfarfod mawr, nas anfarwolwyd gan areithyddiaeth y platform.

Dyma yr achos paham mai pan sonir fwyaf am ymdrechiadau i daenu Cristnogrwydd, dyna y pryd y gwneir leiaf tuag at hyny yn wirioneddol ac effeithiol. Ni a glywn ruad y cenllif, a thybiwn fod y meusydd wedi eu dyfrhau i ddigonedd; pan nad yw anghordd y cenllif yn deilliaw ond o fod ffrydiau lawer wedi dyfod i undeb dinystriol a'u gilydd—ffrydiau ag oeddent gynt yn llifo yn dawel trwy fil o welyau bychain, yn ireiddio y gwreiddiau cuddiedig, ac yn cyhoeddi eu llwybr, nid i'r glust ond i'r llygad, trwy y gwyrddlesni hyfryd a welid o'u hamgylch.

Y mae yn beth cymmwys, ynte, pan y cynnygir trefniadau newydd tuag at anfon yr efengyl i wledydd tramor, i adgofio dynion yn fynych o'r *hen drefn* y sydd (mor hen a'r efengyl) tuag at gario yn mlaen y gwaith da, ac i ddangos rhagoriaeth y moddion hyny ag sydd yn mron o fewn cyrhaedd pob dyn, y rhai ni ofynant gymdeithasau helaeth, ac nis gwnant yn agored i fagl a phrofedigaeth y mawrglod. Nid ydym dros ymwrthod ag unrhyw ymdrechiad ag sydd yn debyg o daenu ein crefydd mewn gradd weddol o burdeb. Ond rhaid rhoddi y lle blaenaf i'r ymdrechiadau hyny, y rhai a osododd Duw yn ddyledswyddau amlwg dynion o bob gradd ac yn mhob cyflwr bywyd.

Rhoddir dau o'r moddion hyn, yn fyr, yn ein rhifyn nesaf.

Cyf.

ENGLYN.

Dadguddiad Iôn mâd i'n mysg—goreu ddawn
Iôr hyddawn, er addysg;
Goleuni Duw, gleiniau dysg,
A gemmau'r Gwir ddigymmysg. IOLO MORGANWG.

BYWGRAFFIAD YR UNDODIAID BOREU.

MR. THOMAS EMLYN.

Ganed Mr. Emlyn yn Stamford, swydd Lincoln, yn y flwyddyn 1663. Er fod ei rieni yn arferol o gyrchu i'r Eglwys Sefydledig i addoli, yr oeddent yn lletya meddyliau mor barchus am egwyddorion ymneilldu'aeth, fel y darfu iddynt benderfynu dwyn eu mab i fyny i'r weinidogaeth yn mhlith y Protestaniaid ymneilldu'edig. Yn ganlynol, yn y flwyddyn 1678, gosodasant Thomas dan ofal Mr. Shuttleworth, Selby, ger Welford, yn swydd Northampton. Yn y flwyddyn ganlynol derbyniwyd ef yn aelod o Goleg Imanuel, yn Mhrif Athrofa Caergrawnt: ond dychwelodd drachefn at Mr. Shuttleworth, gyda'r hwn yr arhosodd bedair blynedd. Gyda golwg i gael gwell manteision, symudodd yn 1682 i athrofa Mr. Doolittle, ger Llundain. Yn y sefyllfa hon gwnaeth Mr. Emlyn bob defnydd ag a allasai o'r manteision o fewn ei gyraedd, megys llyfrau, a chyfeillach dynion dysgedig; a gwnaeth y fath gynnydd yn y wybodaeth angenrheidiol i swydd y weinidogaeth fel ag y cefnogwyd ef i ddechreu y gwaith pwysig yn Rhagfyr, 1682. Yr oedd ei feddwl mor foreu a hyn yn diystyru cadwyni rhagfarn a hualau hen *systems* sefydledig athrawiaethau poblogaidd: penderfynodd chwilio'n fanol, a barnu'n ddiduedd drosto ei hun, heb ofni'r awdurdod wladol na chyfaddef un arall ond eiddo Crist a'i wirionedd. Yr oedd yn ffafriol iawn i'w gynnydd rhagllaw nad oedd ddim dan un anghenrheidrwydd i gyssylltu ei hun yn uniongyrchol ag un gynnulleidfa a rhoddi ei holl amser i barotoi ar gyfer gwasanaeth ei alwad. Yn y flwyddyn 1683 aeth yn gaplan i Iarlles Donegal, ac aeth gyda hi i Belfast, yn yr Iwerddon, lle y cafodd sefyllfa dda, a'i drin gyda pharch a thynerwch. Priododd yr Iarlles â Syr William Franklin, boneddwr o feddiannau a chyfoeth mawr yn ngorllewin Lloegr, yr hwn a gynnygiodd i Mr. Emlyn bersoniaeth werthfawr yn Lloegr. Ond gan nad oedd yn cymeradwyo telerau cydymffurfiad, gwrthododd ei derbyn. Er hyny, dywedir ei fod yn ddyn mor rydd o ran ei syniadau am yr eglwys, fel ag y cyrchai yn rheolaidd i'r Eglwys Sefydledig yn y boreu, ac fod offeiriad yr eglwys yn gwneuthur yr un peth ag yntau bob prydnawn pan oedd addoliad ganddo yn neuadd yr Iarlles, ac felly tyfodd cyfeillgarwch mawr rhwng yr offeiriad ag yntau. Pregethai hefyd yn eglwys y plwyf, gan ei fod wedi cael *license* i bregethu gan yr Esgob heb orfod tanysgrifio. Ar yr amser hwn ymwelodd Mr. Emlyn â Dublin, ac yr oedd ei wasanaeth mor dderbyniol gan gynnulleidfa Mr. (gwedi hyny Dr.) Daniel Williams a Mr. Joseph Boyce, fel ag y tueddwyd ef i sefydlu yn eu plith. Yn y cyfamser cymerodd amrywiol amgylchiadau le yn nghyfluwr cythryblus gogledd yr Iwerddon, ac ysgariad teuluaidd yr Iarlles, yr hyn a'i gwnaeth yn angenrheidiol i Mr. Emlyn symud i Loegr. Yn ganlynol, yn y flwyddyn 1688, daeth i Lundain, lle yr adnewyddodd ei gydnabyddiaeth â Mr. Daniel Williams, yr hwn oedd wedi rhoddi i fyny y weinidogaeth yn Dublin. Ar ei waith yn teithio yn ol ac yn mlaen o Ddublin i Lundain, arferai bregethu mewn amryw eglwysi plwyfol; ac yn Llynlleifiad yn neilldiol, lle y darfu iddo bregethu yn ddamweiniol. Rhoddodd ei wasanaeth gymaint o foddlonrwydd, fel, pan y bu offeiriad y plwyf farw, yn lle yr hwn y darfu iddo bregethu, darfu lawer o'r trigolion ddymuno arno adael iddynt ymdrechu cael y bersoniaeth iddo. Ond er mor barchus oedd y cynnyg o'u tu hwynt, nis gallasai ei dderbyn o herwydd ei egwyddorion.

Yn 1689, pan yr oedd Mr. Emlyn yn hollol heb waith, gwahoddodd Sir Robert Rich, un o arglwyddi y mor-lys, ef i fyw gydag ef yn ei annedd ger Beccles, yn Suffolk; a chafodd ei dueddu i bregethu i gynnulleidfa o Ymneilldu'wyr yn Lawedoff, lle yr arhosodd dros flwyddyn a hanner, er gwrthod o hono dderbyn eu gwahoddiad i fod yn weinidog iddynt. Darfu i hynawsedd ei syniadau a'i ymddygiad, tra yn aros yn y lle hwn, ddwyn oddiamgylch undeb perffaith rhwng yr Eglwyswyr a'r Ymneilldu'wyr. Tra yn y lle hwn daeth yn gydnabyddus a Mr. William Manning, gweinidog parchus gyda'r Ymneilldu'wyr yn y gymydogaeth;

a darfu i'w cyfeillgarwch a'u hymddyddan y naill a'r llall eu tywys eu dau i goleddu syniadau ar y drindod, er gwaethaf traethawd Dr. Sherlock, yr hwn oedd newydd ddyfod allan, croes iawn i'w syniadau blaenorol. Aeth Mr. Manning yn Socinian, ond coleddodd Mr. Emlyn yr hyn a elwir yn gyffredin y dyb Ariaidd; yr oedd yn credu yn rhag-hanfod Crist, mai efe oedd y *logos* trwy yr hwn y creodd Duw y byd sylweddol yma. Glynodd wrth y dyb hon dros ei fywyd.

Ar ffoedigaeth Iago II. taweloddd y cythrwfl yn yr Iwerddon i ryw raddau. Cymhellodd Mr. Boyce Mr. Emlyn i uno ag ef i gymeryd gofal cynnulleidfa ymneilldueddig yn Dublin. Ar ol hir ystyriaeth, derbyniodd Mr. Emlyn y cynnyg, ac a symudodd i Dublin yn y flwyddyn 1691. Yma ennillodd glod a bri mawr fel pregethwr. Yr oedd ei bregethau yn rhesymol, ennillgar, a chyffrous; a'i lais yn gryf a chroyw; ei barabl yn urddasol a thlws; ac yr oedd y gwasanaeth yn bwysig ac effeithiol. Gochelai bynciau dadleugar, a chyfiwynai holl ddyledswyddau anghyhoedd y weinidogaeth gyda phriodoldeb neillduol.

Yn 1694 priododd Mr. Emlyn a Mrs. Esther Bury, gwraig-weddw gyfoethog; yn y modd hyn cafodd ei alluogi i gadw ymddanghosiad parchus. Ar ol llawer o amheuaeth a phetrusder, penderfynodd, pan y cai gyfleu addas, i addef ei dyb yn nghylch athrawiaeth y drindod: ond cyn iddo wneuthur hyn, o leiaf yn rheolaidd, cyfarfu a llawer o flinderau teuluaidd. Yn 1701 collodd ei fab a'i wraig; clwyfodd yr olaf ei deimladau yn fawr iawn, gymaint nes iddo gael ei arwain i'r teimladau a'r myfyrdodau a welir yn ei "Gysuron Anghladdol," sef pregeth a wnaeth ar yr achlysur. Yn fuan ar ol iddo gladdu ei wraig, cyn i'w feddwl gael amser i dawelu, a phan oedd yn eithaf anaddas i gyfarfod a chroesderau newyddion, aeth ei dyb ar y drindod yn destun ymchwil. Dywedodd Dr. Cumming, physygwr o Dublin, ac aelod o gynnulleidfa Mr. Emlyn, wrth Mr. Boyce, ei fod yn drwgdybio Mr. Emlyn ar y pwnc; a phenderfynasant ofyn i Mr. Emlyn beth oedd ei syniadau gwirioneddol. Wedi iddo yn bendant addef mai Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist yw yr unig Oruchaf, ac mai derbyn ei ardderchawgrwydd a'i awdurdod oddiwrtho wnaeth y Mab, cynnygiodd ymadael yn ddystaw o'r gynnulleidfa, ac felly i attal y terfysg oedd yn debygol o ganlyn. Dygodd Mr. Boyce yr achos o flaen y gweinidogion, mewn dull ag sydd yn taflu annghlod mawr ar ei fywyd; yr hwn, wedi i Mr. Emlyn roddi datganiad eglur o'i syniadau, yn uniongyrchol a warafunodd iddo bregethu rhagor. Ni ymgynghorwyd dim a'r gynnulleidfa o'r dechreu i'r diwedd o'r ymddygiad byrbwyll hwn. Addefodd Mr. Emlyn ei syniadau wrth y diaconiaid a blaenoriaid y gynnulleidfa; ac ar ol cydnabod yn barchus eu tynerwch tuag atto, gofynodd am ollyngdod. Parodd ymddygiad ei gyhuddwyr syndod a blinder mawr i'r gynnulleidfa, a bu flin gan Dr. Cumming ei hun y rhan a gymerodd yn y gorchwyl. Modd bynnag, penderfynwyd o'r diwedd ar fod i Mr. Emlyn encilio am ryw ysbaid i Loegr; a'r fath oedd ymddygiad y gweinidogion tuag ato, fel y danfonasant ddau o'u rhif yn ddirprwywyr i orchymyn iddo beidio bregethu yn un lle wedi yr elai yno, er cymaint oedd y draul yn debyg o achosi. Canlynodd yr erlidwyr hyn ef, trwy lythyrau, i Lundain, ac ymdrechasant ei amddifadu o'r hynawsedd a'r cariad a gafodd ar ei ddyfodiad yno. Tra y bu yn Llundain cyhoeddodd hanes byr o'i achos; ac yn mhen deg wythnos dychwelodd at ei deulu i Dublin. I'r dyben i rhagflaenu'r rhagfarnau a goleddid yn ei erbyn ef a'i athrawiaeth, ysgrifenodd "Ymofyniad gostyngedig i'r hanes ysgrythyrol am Iesu Grist, neu Ymresymiad byr yn nghylch ei dduwdod a'i ogoniant yn ol yr efengyl." Yna penderfynodd ddychwelyd i Loegr; ond lluddiwyd ei amcan gan ysbryd erlidgar ei elynion, y rhai a fynasant *warrant* oddiwrth y *Lord Chief Justice* i'w ddal ef, a chymeryd meddiant o'i lyfrau. Ar y cyntaf gwrthododd y *Chief Justice* gymeryd meichiau; ond wedi hyny cymerodd feichiau, a rhwymodd ddau ddyn parchus am £800 dros ymddangosiad Mr. Emlyn. Yn y frawdle nesaf gafodd y prif reithwyr *true bill* yn erbyn Mr. Emlyn am gabledd. Daeth ei dreial yn mlaen yn Mehefin, 1793; a chafodd ei ddwyn yn mlaen mewn dull mor gywilyddus a phe buasai o flaen bwrdd y Chwil-lys pabaidd yn cael ei dreio. Dychrynwyd y rheithwyr i roddi y rheithfarn a ofynid ganddynt, a chawsant Mr. Emlyn yn euog, er i rai

o'r rheithwyr deimlo gofid ar ol llaw am hyny. Ar ol i'r rheithfarn gael ei chyhoeddi, cynnygiodd yr *Attorney General* ar i'r awdwr gael yr anrhydedd o'r *pillory*, ond gohiiriwyd y ddedfryd hyd ddydd ddiweddaf y frawdle. Yn y cyfamser cafodd Mr. Emlyn ei fwrw i'r carchar cyffredin.

Erbyn hyn dechreuodd Mr. Boyce, cydweinidog Mr. Emlyn, edifarhau, a gwnaeth gymaint a allai i attal cynnygiad yr *Attorney General* i gael ei ddwyn i weithredied. Ar daer gais ei gyfeillion ysgrifennodd lythyr mewn iaith doddedig a chyffrous at y *Chief Justice*. Pan y dygwyd ef i dderbyn ei farn, cynnygiodd un o gounsellcriaid y frenhines ar iddo alw ei eiriau yn ol, ond ni chydsyniodd Mr. Emlyn a hyn. Druain o honynt! Beth gwell fuasent er iddo alw ei eiriau yn ol, heb iddo gyfnewid yn ei farn yn gyntaf? Trwy hyn gallasent gael rhagrithiwr, mae'n wir; ond nid mor hawdd ydyw newid barn a rhagrithio. Pallodd Emlyn, ac o herwydd hyny dedfrydodd y *Chief Justice* ef i ddyoddef blwyddyn o garchar; i dalu dirwy o fil o bunnau, ac aros yn ngharchar hyd oni thalai y ddirwy; ac wedi hyny i roddi meichiau am ei *ymddygiad da dros ei fywyd;* gan feddwl wrth hyny, peidio dywedyd gair byth mwy yn erbyn cyfeiliornad!! Rhoddwyd ar ddeall iddo fod y *pillory* yn ddyledus iddo am ei drosedd, ond nad oedd y rhan hon o'i gosp i gael ei gweinyddu, gan mai dyn dysgedig oedd ef. Ar ol i'r ddedryd gael ei chyhoeddi, arweiniwyd ef o amgylch y pedwar llys, a phapyr ar ei ddwyfron, i dynu sylw y werin. Beth oedd ar y papyr, nis gwn, ond hyn a wn, na fu'r Ymneilduwyr a'r Eglwys erioed mewn mwy o undeb ar waeth gwaith. Cywilydd iddynt o'u gwaith brwnt.

At dreial Mr. Emlyn y mae Syr Richard Steel yn cyfeirio yn y geiriau hyn, "Yr *Anghydffurfiwyr* ddarfu ei gyhuddo ef, a galwyd i mewn y gallu *gwladol*, a therfynodd yr achos mewn *carchariad* a *dirwy fawr iawn*, dan ddull o argyhoeddi, ag y mae yr efengyl yn ddystaw yn ei chylch." Cafodd Mr. Emlyn ei gadw yn garcharor am dri mis yn nhy yr is-sirydd, ac wedi hyn anfonwyd ef i'r carchar cyffredin, lle y bu gyda'r carcharorion eraill mewn cell gyfyng, a phump neu chwech o welyau ynddi, dros chwech wythnos, yr hyn a effeithiodd ar ei iechyd yn fawr, a thrwy ddeiseb am *Habeas Corpus*, symudwyd ef i'r Marshalsea, o herwydd ei iechyd. Yn y carchar hwn yr ysgrifenodd ei "Sylwadau Cyffredinol ar Amddiffyniad Mr. Boyce o Dduwdod ein Harglwydd bendigedig." Bu yn y carchar hwn hyd Gorphenaf, 1705, heb nemawr o'i hen gyfeillion yn ymweled ag ef, na neb o'i frodyr creulon, gweinidogion Dublin. Y mae Mr. Boyce yn wir yn eithriad, trwy erfyniadau dibaid yr hwn, yn nghyda chyfryngiad haelionus T. Millicot, Ysw., Dug Ormond, a'r hanes ffafriol a roddodd yr arglwydd ganghellydd iddo, tynwyd y ddirwy i lawr i £70, gan fod y ddirwy o'r blaen yn annghyfreithlon yn ol ei farn ef. Talwyd y swm hyn mewn gwirionedd i drysorfa'r Llywodraeth. Ond beblaw hyn yr oedd gan Esgob Armagh hawl i swllt y bunt o'r ddirwy, fel amnerydd y frenhines, a phallodd a dangos trugaredd nes cael £20 o'r hanner cant oedd yn dyfod iddo!

Tra bu Mr. Emlyn yn y Marshalsea pregethai yn gyson i'r carcharorion a llawer o'i wrandawyr blaenorol, o'r radd isel. Ar ol iddo gael ei ryddhau aeth i Lundain. Ile y pregethodd i gynnulleidfa fechan o'r un syniadau ag yntau, ond heb dderbyn dim cyflog. Gwnaeth Mr. Charles Lesie, o'r *lower house of Convocation* amryw gynnygion i'w rwystro, ond trwy gymedroldeb Archesgob Tenison a chyfryngiad y Llywodraeth, methasant a llwyddo. Modd bynag aeth cynnulleidfa Mr. Emlyn lai lai trwy farwolaeth ei wrandawyr, nes o'r diwedd iddo roddi fyny. Er hyny bu yn ddiwyd yn amddiffyn ei egwyddorion, ac er mor anmhoblogaidd oedd ef ei hun, cafodd yr hyfrydwch o weled ei egwyddorion yn lledu yn Lloegr a'r Iwerddon hefyd. Ysgrifenodd lawer, ac y mae ei waith yn awr yn fy meddiant, yn dair cyfrol. Oddwrthynt ymddengys ei fod yn ysgolhaig rhagorol, cyfarwydd iawn yn ngwaith yr hen dadau Lladin a Groeg; yr oedd yn ymresymydd goleu, parod, a grymus; parod iawn i weled gwendid ymresymiad ei wrthwynebydd, fel yr ymddengys oddiwrth ei atteb i Mr. Martin, ar burdeb, 1 Ioan v. 7. Er nad oes ond ychydig o weinidogion Llundain a feiddient ei alw i bregethu i'w pwlpudau, oddieithr Mr. Burroughs a Dr. James Foster; etto yr oedd mewn cyfeillgarwch â llawer o ddynion dysgedig, ac yn eu plith yn neillduol Dr. Samuel Clarke a Mr. Whiston.

Ar farwalaeth Mr. James Pierce o Exeter, gwahoddodd y gynnulleidfa Mr. Emlyn i fod yn ganlynydd iddo yn weinidogaeth; ond dywedodd, yn ei atteb iddynt, nad oedd un gwiw iddynt feddwl am dano ef, o herwydd ei oedran mawr a'i fethiant. Yr oedd yn agored iawn i'r gymhalwst, o'r hwn y bu farw ar y 30ain o Gorphenaf, 1743, yn 79 mlwydd oed. Felly, dyna nu merthyr etto dros y gwirionedd, a thrwy hyny, er annogaeth yn rhagor i ninnau dwyn ein tystiolaeth drosto, deued a delo.

O. EVANS.

MR. JAMES DAVIES A BRYCHAN.

MR. YMOFYNYDD,—Pell iawn oddiwrthyf oedd yr amcan o gyhuddo na lledgyhuddo Brychan o'r newidiad a wnawd yn llinellau Iolo; a thrwy eich cennad rhoddaf ychydig resymau bod newidiad wedi ei wneyd.

Dangosodd Iolo i mi ar fore dydd Nadolig Crist, 1821, ddernyn bychan a'r llinellau arno, a chymerais adysgrif o honynt dan olygiad yr awdwr. Cychwynodd y bardd y dydd hwnw tua Phenmaen, i ymweled â Mr. Perkins (un o ddysgyblion y diweddar Barch. Gilbert Wakefield) â'r dernyn ganddo; ar ei ddychweliad yn mhen rhai diwrnodau, nid ynganodd air ei fod wedi gwneuthur un cyfaewidiad yn y llinellau. Ar ol hyny rhoddais fenthyg y llyfr a gynnwysai'r adysgrif i Taliesin ab Iolo, ag efe a roddodd y llinellau i mewn yn yr ail gyfrol o'r Salmau, yn y dull a'r modd yr aethant o'm llaw i, wedi eu pennodi, "Cân yr angylion, Luc. ii. 14," ag nid "mawl i Dduw," fel ag y maent yu eieh "Ymofynydd" am Ionawr, tudal. 13.

Y mae yn ddigon gwir fod Salmau a Hymnau lawer yn yr iaith Gymraeg, yn frith o dwyll-odlau, a chamwedd ar acceniad, ond nis gwelir y fath seiau yn ngwaith Iolo Morganwg. Y mae *plith* a *dilyth*, un yn yr accen esgynedig a'r llall yn y ddisgynedig; pe buasai y gair dilyth wedi ei ranu yn ddau: sef di lyth, buasai'r acceniad yn rheolaidd, ond yn dwyll-odl wedi'r cwbl. Y mae Iolo yn ei ragymadadrodd i Salmau'r eglwys yn yr anialwch, yn gosod ar lawr un o'i reolau yn y geiriau hyn:—"Amcenais fydryddiaeth lithrig a rheolaidd, herwydd hen gelfyddyd cerdd Arwest. Ymgedwais rhag twyll-odli, oddieithr lle gorfu arnaf droseddu yn erbyn y reol (fel y dywed y dysgedig fardd E. Prys,) Nid oes dim mewn synwyr yn ein hiaith ni yn cydodli â Duw. Nid ar ben pob eant milldir y ceir un a'm deaill yma." Cymmaint a hyna am dwyll-odl. Etto am yr acceniad. Yr wyf innau wedi cael yr anrhydedd o fod yn ddysgybl annheilwng, i'r athraw mawr, fel ag y geilw fy hen gyfaill Brychan, Iolo, gyda chymhwysder. Dysgais ganddo fod pob gair yn ein hiaith, a'r acceniad ar y *(penultima)* y sill ddiweddaf ond un, oddieithr geiriau o'r ansoddeiriau, (*verbs from adjectives*) a rheiny yn gyffredin yn diweddu yn hau, megys glanhau, cadarnhau. Nid yw y gair dilyth yn dyfod dan y rheol hon.

Ymddengys nad yw Brychan yn hyddysg yn Salmau Iolo, pe amgen, buasai yn gwybod fod y llinellau mewn dadl wedi eu cyhoeddi eisioes. Pe bai mwy o ddarllen a myfyrio ar ei Salmau, yn ddigon tebygol y buasai rhagor o hynawsedd yn mhlith crefyddwyr y wlad.

Ychydig sydd yn gwybod fod Salman Iolo y "cyfryw ag y gallai Cristnogion diragfarn o bob enw a phlaid ymuno ynddynt i foliannu'r 'Un Duw a Thad oll.'"

Nid oes genyf un amheuaeth nad oes mawr barch gan Brychan i goffadwriaeth Iolo, nid all fod mwy ganddo na sydd genyf finnau; ac y mae parch mawr genyf i Brychan, er ein bod yn anghytuno mewn rhai pethau; a cadwed mewn cof nad amcenais ei gyhuddo, ond y mae rhyw camsyniad yn gorphwys, ond yn mha le nis gwn.

Yr eiddoch yn ostyngedig,

JAS. DAVIES.

SIWGR.

YSTYRIR China yn wlad gynnwynol y gorsen o'r hon y ceir y siwgr, o herwydd fod hanesion yn profi fod trigolion China yn arferyd â meithrin y gorsen hon am yn agos i ddwy fil o flynyddoedd cyn i neb yn Ewrop wybod dim am siwgr, ac am hir iawn o amser cyn bod un o genedloedd y dwyrain yn ei arfer. Yr oedd llawer o anwybodaeth yn aros ynghylch natur y siwgr, a'r modd y gwneid ef, yn mhell ar ol iddo ennill ei ffordd i'r gorllewin drwy India ac Arabia, ac y mae lle i feddwl fod pobl China o fwriad yn cadw y peth yn ddirgel.

Datguddiwyd gwybodaeth gywir o'r modd y ceffid siwgr, tua chanol y 13eg ganrif, gan Marco Polo, y teithydd nodedig; er fod hyn mewn rhan yn wybodus lawer yn foreuach. Cludwyd y planhigyn yn fuan iawn i Arabia, yr Aifft ac Ethiopia, lle y cafodd ei drin yn helaeth. Yn gynnar yn y 15fed ganrif, ymddangosodd y gorsen siwgr gyntaf yn Ewrop. Sicily a ddechreuodd ei meithrin gyntaf; gwedi hynny trosglwyddwyd hi i'r Yspaen, Madeira, ac ynysoedd y Canari; ac yn fuan ar ol darganfyddiad yr America gan Columbus, cludwyd hi i Hayti a Brazil ac oddiyno i holl ynysoedd yr India Orllewinol.

Y mae tyfiad y gorsen yn amrywio llawer, gan ei fod yn ymddibynu ar ansawdd y tir. Mewn lle newydd a llaith tyfa weithiau hyd i ugain troedfedd o uwchder. Blagur gwedi eu torri o hen gorsen yw y planhigion. Gorchwyl caled iawn ydyw ceibio cae o gorsenau o dan wres y cylch-poeth (*torrid zone*). Ni chafwyd neb cystal a'r Negro at y gwaith hyn.

Gynt gwnelid hyn oll trwy waith llaw, ond yn awr, lle y goddefa'r tir, defnyddir aradr i'r perwyl hwn, ac y mae hyn yn well i'r plannwr yn gystal ag i'r llafurwr. Nid oes achos gosod planhigion newydd i lawr bob blwyddyn, pe felly, ni byddai holl lafurwyr yr ynysoedd gorllewinol yn ddigon lliosog at y gorchwyl. Pan y byddo y cyrs yn llawn addfed torrir hwynt yn y bôn; ac wedi ei gwahanu i hyd cymmedroldeb, cylymir hwynt yn feichiau, a chludir hwynt i'r felin. Gwesgir yr holl sudd o'r cyrs drwy eu gollwng ddwywaith rhwng olwynion y felin. Cesglir hwn mewn celwrn, a berwir ef yn ddioed i rwystro iddo suro. Rhoddir ychydig galch i mewn y pryd hynny, er mwyn gwahanu y gwaddod. Syumudir yr anmhuredd gwedi yr ymddangoso ar y gwyneb, ac yna rhoddir ychwaneg o dân o dan y ffwrnes, fel y byddo i'r gwlybaniaeth sychu i fynu, ac fel y tewycho y sudd ar ol oeri. Yn gyffredin dyry cant a deg o gyrs bnm galwyn o sudd, a dyry pum galwyn o sudd chwe phwys o siwgr grisialedig. Ar ol oeri y siwgr mewn dysglau bâs, rhoddir ef mewn math o farilau mawrion er ei ddwyn i Ewrop. Y mae gwaelod y barilau hyn yn llawn tyllau, o'r rhai y rhan o'r nodd na thry yn risialedig a red i gelwrn mawr a osodir odditanynt. Y mae y siwgr yn y faril yn sychu, ac yn dyfod fel yr ydym ni yn ei gael yn y masnachdai yn Nghmru. Llenwir y faril i fynu bellach, gosodir pen arni; a chludir ef ar fwrdd y llong. Cesglir diferion y siwgr, a'r holl ysgyrthion oddiwrtho, ac wedi rhoddi burym ynddo, gwneir o hono y gwirod cadarn a elwir "Rum."

YR ADDYSG ODDIWRTH DREFNIADAU NATUR.

PE byddai eich calon a'ch bryd fel y dylent fod, ni allech un amser sylwi ar drefniadau rhyfedd y greadigaeth heb fod yn ddedwyddach ac yn well. Profant i chwi fod y byd mawr hwn, ei greaduriaid dirifedi, a'i holl droion rhyfeddol, oll o dan lywodraeth UN *sydd yn anfeidral ddoeth a da.* Pe buasai y Llywydd mawr yn ddoeth heb fod yn dda, neu yn dda heb fod yn ddoeth, nis gallasem deimlo hyder na diogelwch. Ond, profa pob peth ddoethineb a daioni yr hwn a'n gwnaeth ni, ac a wnaeth y byd o'n hamgylch.

Dylai hyn yn nghyd â'r dygwyddiadau uwch ac annghydmarol ragorach sydd genym am ein Creawdwr, yn ei air sanctaidd, beri i ni ymgysuro yn nghanol

gorthrymderau, ac ennyn gobaith ynom yn nyfnder ein hing, y try efe bob croes drom, a chwpan chwerw, yn elw yn y diwedd i'a rhai a'i hoffant ef.

Dywed y Bibl, fod hyd yn oed gwallt ein pen wedi ei gyfrif: ac na ddichon aderyn y to syrthio i'r llawr heb yn wybod iddo ef. Llefara ei ofal rhagluniaethel am holl weithredoedd eraill ei ddwylaw yr un iaith. Yr olwg hon yn unig a rydd "esmwythdar i'n heneidiau." "Ein Tad ni ydyw efe, yr hwn hefyd sydd yn y nefoedd;" ac, fel y canodd yr hen fardd,—

"'Does dim nac yn na than y nef,
Nad *Ef* sydd yn ei beri;
Ac *Ef* a roes, gwnaed dyn ei ran,
Y cyfan er daioni."

TRAETHAWD AR DDIM.

MR. YMOFYNYDD,—Digwyddod i mi, pan yn troi dalenau yr *hen Gylchgrawn Cymraeg*, i gyfarfod a'r erthygl ganlynol. Gan feddwl y buasai yn adeiladol, crefaf eich hynawsedd i'w ail-gyhoeddi yn yr Ymofynydd. A fyddwch chwi, neu ryw un o ohebwyr yr Ymofynydd fod mor garedig a rhoddi gwybodaeth i mi, *pwy oedd* Dafydd Ddu, yr awdwr? IOAN.

YN gyntaf, os ystyriwn hynafiaeth DIM, y mae yn hynach na'r byd ei hun. Pa beth oedd yn bod cyn llunio'r greadigaeth? DIM.

DIM sydd anfesurol, anfeidrol, ansymudol, ac anghyfranol; cymerwch y peth a fynoch ymaith oddiwrth DDIM, efe a fydd yn wastad yr un, gan nad oedd dechreuad iddo, ni fydd diwedd iddo ychwaith. Efe yw tad pob peth; pob peth yn Natur a darddodd o hono ef. Y corph disglair hwnw, yr haul, y sêr llewycherdig, y maesydd, afonydd, y moroeda, y mynyddoedd a'r dyffrynoedd a grewyd ar y cyntaf o DDIM. Pan ystyriom y rhan hono o ddynolryw, sy'n ymffrostio yn wastadol yn hynafiaeth eu hiliogaeth anrhydeddus, y rhai o wir orwagedd a balchder anwybodus, ydynt yn ymchwyddo i wneuthur eu nythod yn uchel, gan edrych i lawr ar y rhelyw o'u cyd-greaduriaid gyda'r fath ddiystyrwch, fel pe buasent hwy eu hunain wedi cael en gwneuthur o burach defnyddiau na'r cyffredin o ddynolryw.—Ie, meddaf, pe baem yn olrhain achau rai tylwythau, tywysogion ac arderchogion eraill, dros ychydig genedlaethau, coem weled eu bod oll yn deilliaw ar y cyntaf o DDIM.

Pa beth sydd yn rhyddhau meddwl dyn oddiwrth ofalon a blinderau'r bywyd hwn, ond bod yn meddu ar DIM. Y philosophydd hwnw, Bias, a daflodd ei aur a'i arian i'r môr, er mwyn bod yn rhydd oddiwrth y rhwystr oeddynt yn wneuthur iddo; ymfawrygodd yn fwy yn yr ymadrodd hwn nac unrhyw beth arall, h. y.

"*Omnia mecdm porto.*"
'Rwyn dwyn fy holl eiddo gyda mi.

Efe a gyhoeddai yn fynych na wyddai efe beth ydoedd gwir ddedwyddwch, hyd yn nes y daeth i fwynhau DIM. Gellir cadarnhau fod yr hwn sydd yn meddu DIM yn rhydd oddiwrth aflonyddwch o miloedd o ofnau y rhai sydd yn blino eraill, nid yw yn ofni rhyfel, ac ni chythruddir ef trwy osodiad trethau newyddion, ni flinir ef gydag ymweliadau oddiwrth y cyfreithwyr ffals, y dadleuwr dau-wynebog, a'r physygwr gwenieithus, nid ydynt yn dychymygu un dichell i'w ddifeddianu o'i eiddo, nac i'w ddifuddio o'i iechyd; nid oes un etifedd gwastraffus yn chwennych ei farwolaeth; ni arferir na gwenwyn na dirgel fradwriaeth tuag at brysuro ei ddiweddiad, gadewir iddo fyw nes y gwelo natur yn dda alw am dano; y mae efe yn ymddangos yn esmwyth pan fyddo'r byd o'i amgylch yn cael ei yspeilio.

Os cyfrifir y rhai sy'n boddloni ar DDIM y rhai dedwyddaf o ddynolryw, gellir ystyried y dynion hynny, y rhai mwyaf cywrain, y rhai a gawsant afael yn y ffordd i fyw ar DDIM; os bydd gan wr lawer o blant, wrth ystyried ei lafur tuag at ennill bywioliaeth iddynt, e fydd yn rhyfeddu yn fawr wrth feddwl am yr hwn a fo'n byw ar DDIM. Yn nesaf, gadewch i ni ystyried y mawr-lles o DDIM, yn dyr-

chafu clod dynion. Edrychir ar y dynion na ofnant DDIM fel y rhai mwyaf calonog, y rhai na chystuddir o achos DIM a gyfrifir yn ddoethaf; a'r rhai ni welsant fai ar DDIM a gyfrifir y rhai mwyaf hynaws.

Hyd yn hyn y soniasom fod DIM yn beth o bwys mawr yn ngalwedigaethau dynion neilldual; ond os cymerwn olwg gyffredinol ar drefniadau gwledydd a theyrnasoedd, cawn weled ei fod yn beth mwy o bwys nag yn ngalwedigaethau dynion neilldual.

Os edrychwn i fywyd Alexander fawr, can weled fod y rhan fwyaf o'r rhyfeloedd gwaedlyd hynny, trwy ba rai yr ennillodd y fath fawr-air, wedi eu gwneuthur i DDIM.

Os ystyriwn yr ymerodraeth Rufeinaidd, yn enwedig yn ei gwanychiad, cawn weled ddarfod llunio amryw ddichellion, bradwriaethau creulawn, a chyfreithiau celyd, i ddwyn ymaith fywydau y rhai mwyaf rhinweddol o'r Rhufeiniaid, a hynny am DDIM.

Os darllenwch hanes yr ynys Gotha (Prydain), cewch weled ar amser nodedig, i reolau (sef, o 1640 i 1660) y llywodraeth, gael eu dyrysu a'u taflu i'r annhrefnusrwydd mwyaf, a hynny o achos DIM.

Cewch weled hanes am yr amryw ammodau heddwch, a luniaethwyd rhyngddynt â theyrnasoedd cymmydogaethol, ac i'r holl ammodau gael eu torri a'u dwyn i DDIM.

Yn y dywededig hanes, cewch weled i'r naill deyrnas roddi ei hun i'r lall, fel ei gelynion, a hyny am DDIM. Yr un pryd hi a gwerylodd gyda rhai o'i chyfeillion goreu, ac a syrthiodd allan â hwynt am DDIM.

Pa faint o drafferth a thraul a gymerwyd i barotoi llyngesau, gwyr, ac arfau, &c., yn y gwrthryfel diweddaf yn yr America, a pha faint gwell ydyw Lloegr yn awr ar ol treulio cymaint o arian, a cholli cymaint o waed? DIM.

Gellir dilyn y testyn hyd at achosion crefyddol. Pa sawl gweinidog ffyddlawn sydd yn llafurio yn ddiwyd yn y gair a'r athrawiaeth, ac yn treulio ei nerth yn ofer, ac am DDIM? Pa gynifer o wrandawyr sydd yn cyrchu i leoedd o addoliad; a pha faint gwell ydynt wedi'r cwbl? DIM.

Yr wyf yn awr yn barod i ddibenu; ysgatfydd na fydd rhai yn fy marnu yn ffol am ysgrifenu fel hyn am DDIM. Eraill a'm barnant yn wybodus am i mi drin y pwnc mor ddeheu; ond yr wyf yn cadw mewn cof yr ymadrodd hwnnw o eiddo Socrates, y philosophydd,—

"*Hac unum scio, quad nihil scio.*" Sef,

Hyn yn unig a wn, nad wyf yn gwybod DIM.

Gallasem ymhelaethu llawer ar y testyn, ond ni a orphwyswn yn bresennol, gan ddiweddu yn ngeiriau'r ddiareb,

"*Ne quid nimis.*"

Nid da gormod o DDIM.

D. DDU.

HELAETHFAWR DDEFNYDDIOLDEB Y DDAFAD.

YN mysg yr amrywiol greaduriaid â pha rai y mae Dwyfol ragluniaeth wedi cynnysgaeddu'r byd, at wasanaeth dyn; nis gellir gael un creadur mwy diniwed, mwy defnyddiol, a mwy phrisfawr na'r ddafad. Y mae y ddafad yn ddefnyddiol i ni yn fwyd a dillad, ac yn rhoddi helaethlawn waith i'r tlodion, a'n crefftwyr bob tymhor yn y flwyddyn; gan ba rai y dygir yn mlaen yr holl wethiau gwlan yn ein gwlad; a hynny hefyd yn ddirwystr i'n llonyddwch teuluaidd a'n cyfeillgarwch cartrefol, heb niwed o iechyd na phoryglu efnioes neb.

Pob cydyn o wlan y ddafad a droir yn foddion cynnaliaeth i'r marchnadyddion, a'r 'sgrifenyddion; i'r pigyddion, lliwyddion, ysgwryddion, cardyddion, eribyddion, gwehyddion, a'r gwniadyddion, &c., &c., y rhai ydynt, y naill ar ol y llall yn newid

ac yn berwi y defnyddiau, hyd oni thynnant bob cynnaliaeth oddiwrtho. Yna y marsiandwr a ddaw yn ei dro i lwytho ei long o'r defnydd godidog, ac a hwylia dros y weilgi i'w ddosbarthu i bedwar chwarter y byd, o ba rai y trosglwydda, yn lle at-dalment, bob math o olud gwerthfawr yn ol i'w wlad.

Heblaw hyn, y creadur defnyddiol yma wedi ei yspeilio o gwisg y naill flwyddyn a dyf drachefn erbyn y flwyddyn arall, ac a'u anrhega ag oen, yn nghyda mantell hwnw hefyd yn y fargen; a phan lladder y ddafad at ymborth, pa gig sydd fwy moethus a iachus o'r archwaeth i'r cylla? Ei chroen hefyd a ddefnyddir yn helaeth, y crwynwyr a'r gweithwyr mamrwn a esyd ar waith, gan ba rai y ceir digonedd o ddefnyddiau parhaus tuag at diogelu ein meddiannau, ein hawl, a'n hetifeddiaethau, &c. A phan cymero y gelynion y maes i'n herbyn, y mae yn darparu i ni drachefn offeryu cerdd cadarn (*drum*) tuag at gynhyrfu ein calondid i wrthsefyll eu hymgyrch. A phan ddarffo y gwneuthurwr memrwn gymeryd yr hyn a ewyllysio o'r croen, yna y gwnenthurwr glûd (*glue*) a ddaw ar ei ol, ac a biga i fyny bob tamaid a weddillio, a pha rhai gwedi eu mwydo a'u berwi, ein cynysgaeddir drachefn a defnydd gwasanaethgar iawn i'r seiri, cerfwyr, cysylltwyr, cistwyr, a rhwymwyr llyfrau, &c., yr hyn bethau nis gallant wneuthur hebddo.

—*Allan o'r Cylchgrawn Cymraeg am* 1793.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD.

Ebrill 10, cyfarfu Ty y Cyffredin ar ol gwyliau y Pasg. Ac oddiar hyny mae ymraniadau y Ty wedi myned amryw weithiau yn erbyn y Weinyddiaeth. Pan ddygodd Arglwydd Duncan ei gynnyg ymlaen i ddileu treth y ffenestri gwrthwynebwyd y cynnyg gan Ganghellydd y Drysorfa, yr hwn a ddywedai nas gallesid gwneud heb y swm ag y mae'r dreth honno yn dwyn i mewn i'r llywodraeth. Ond pan ranwyd y Ty, cafwyd dros y cynnygiad, 77; yn ei erbyn a thros y weinyddiaeth, 80; mwyrif dros y Weinyddiaeth, dim ond 3. Mwyrif mor lleied a gyfrifid nemawr gwell na gorchfygiad. Ac os drwg y digwyddodd y tro hwn i'r Weinyddiaeth, gwaeth etto ar y nosweithiau dilyuol. Yn nesaf, darfu i'r Weinyddiaeth wrthwynebu ysgrif ëangiad y llysoedd sirol, yr hon sydd i awdurdodi y cwrt bach i godi £50, yn lle £20, Ar ol llawer o areithio dros ac yn erbyn yr ysgrif, pan ranwyd y Ty, cafwyd, dros yr ysgrif, 144; yn ei herbyn, 69; mwyrif yn erbyn y Weinyddiaeth, 75. Ac o'r 59 ddarfu bleidleisio yn erbyn yr ysgrif, yr oedd 32 yn dal swyddau dan y llywodraeth. Ac etto, pan ranwyd y Ty ar gwestiwn yn cyfodi oddiar gynnygiad y llywodraeth i leihâu a diwygio deddfau y toll-nodyn (*stamp duty*), pleidleisiodd dros y Weinyddiaeth, 135; yn eu herbyn, 164; mwyrif yn erbyn y Weinyddiaeth, 29. Y mae yn amlwg nas gall y Whigiaid sefyll eu tir yn y modd hyn.

Ebrill 17. Daeth y cynnygiad ymlaen i ddarllen yr ail waith ysgrif addysgawl Mr. Fox. Ni chaniateir i ni yn bresennol i nodi y rhesymau a ddygid ymlaen gan yr areithwyr yn erbyn a thros yr ysgrif. Gwrthwynebwyd y cynnygiad gan Mr. Stafford (eglwysydd selog) a chan Iarll Arundel a Surrey (Pabydd). Llefarodd yr Arglwyddi Ashley a J. Russel yn erbyn yr ysgrif, a Mr. Roebuck a Hr. Hume o'i phlaid. Yna gohiriwyd y peth am bythefnos. Y mae y cwestiwn pwysig wedi peri cryn gyffro trwy y wlad, ac yn y prif drefi yn rhai o daleithiau Lloegr, y mae cyfarfodydd wedi ac yn cael eu cynnal i gymmeryd y peth dan ystyriaeth; ac os gellir casglu rhywbeth oddiwrth yr areithiau a'r penderfyniadau a wneir ynddynt, ymddengys fod y drefn o roddi addysg gyffrediniol heb ymyraeth a chrefydd—*secular education*—yn ennill tir gyda'r bobl. Ond cymmaint yw'r gwrthwynebiad, oddiwrth yr esgobion a'r Wesleyaid, fel nad yw yn debygol y bydd i'r ysgrif bassio; o leiaf, nid y pryd hwn.

CYFARFOD CWARTEROL Y PASG.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cwarterol Gwein-

idogion Undodaidd y Deheubarth dydd Mercher a dydd Iau, y 3ydd a'r 4edd o Ebrill, yn yr Onnen-fawr, ger Llandilo. Er fod y tywydd yn arw, yr oedd llawer wedi ymgasglu yn nghyd yno; ac wrth bob argoelion yr oedd y gwrandawyr yn teimlo mai da oedd iddynt fod yno. Prydnawn dydd Mercher, am 4 o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen a gweddi, gan Mr. J. E. Jones, Penybont; pregethodd Mr. Thomas Thomas, Pantydefaid, oddiwrth Ioan i. 46, a Mr. J. Thomas. Llandysul, oddiwrth 1 Ioan i. 7. Boreu dydd Iau, am 10 o'r gloch, dechreuodd Mr. J. Jones, Aberdâr, trwy ddarllen yr ysgrythyrau a gweddi; a phregethodd Mr. Peter Joseph, Ciliau, oddiwrth Ioan i. 18. Yn y gynnadledd a ganlynodd, dewiswyd Mr. James, Gellionnen, i'r gadair. Y pwngc a bennodasid o'r blaen i'w drafod yn y cyfarfod hwn oedd "Crefydd;" a llefarwyd yn dda ac yn helaeth ar y pwngc gan Meistriaid T. Thomas, Titus Evans, J. Thomas, O. Evans, a'r Cadeirydd.

Y mae y cyfarfod nesaf—y cyfarfod blynyddol—i fod yn Mhant-y-defaid, Ceredigion, ar yr amser arferol, sef, y Iau cyntaf ar ol yr 21ain o Fehefin, a'r prydnawn o'r blaen. Mr. Jones, Aberdâr, sydd i bregethu ar ddydd Iau. Pwngc y gynnadledd fydd "Diben dioddefaint Crist. I.

DARLITHIAU AR UNDODIAETH YN NGHAERFYRDDIN.

Traddodir darlithiau yn Gymraeg yn nghapel yr Undodiuid, Caerfyrddin, am 6 o'r gloch bob prydnawn dydd Sul, ar y testunau canlynol:—

Ebrill 28ain, "Beth yw Crefydd?"
Mai 5ed, "Ffydd Gadwedigol."
—— 12ed, "Cristnogrwydd y Testament Newydd a Christnogrwydd Sectau."
—— 19eg, "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr UN, ac yn dragywydd."
—— 26ain, "Crist, goleuni'r byd."
Mehefin 2ail, "Crist, delw Duw."

T. E.

GORHAM A'R ESGOB PHILPPOTTS ETTO.

Er gwaethaf penderfyniad llys y *Privy Council*, a'r farn yn ei erbyn, y mae'r hen esgob ystyfnig yn gomedd plygu. Dywedir fod arno i dalu tua 15 mil o bunnau o gostiau cyfraith. Ond nid yw ef yn addef etto ei fod wedi colli'r dydd. Ac nid yw ei blaid yn yr eglwyr wedi rhoddi i fynu chwaith. Ymddengys eu bod yn benderfynol i erlyd y mater yn mhellach, serch rhwygo yr eglwys yn gyfangwbl. Mewn effaith, mae'r rhwygiad eisoes wedi cymeryd lle. Y mae y testun tra phwysfawr (?)—dim llai nâg effeithioldeb bedydd babanod—yn cael ei drin a'i drafod bellach yn gyffredinol yn y newyddiaduron; ac yn ddiau yn cael ei ddadlu a'i wrth-ddadlu gyda'r cwpanaid tê, a chyda'r gwîn ar ol ciniaw. "Dydd y pethau bychain, yn sicr!" ddywed y darllenydd. Ond dengys plûen ffordd mae rhediad y dwfr. Y mae'r elfenau, moesol neu anfoesol, sydd ar waith yn nyhyfansoddiad yr eglwys yn daroganu mellt a tharanau, ac ni wyddys beth yn ychwaneg.

Pa fodd bynag ar y 15fed o Ebrill, yn llys y *Queen's Bench* darfu i Esgob Exeter appelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed yn ei erbyn. Ar y 25ain o Ebrill diweddaf, ar ol i'r mater fod dan ddwys ystyriaeth y llys, darfu i'r Arglwydd *Chief Justice* gyhoeddi barn benderfynal *yn erbyn gr Esgob.*

TRAMOR.

FFRAINGC.

Y ma'r ymdrech am y meistrolaeth rhwng y gwerinwyr cochion a'r pleidiau eraill yn debyg am dipyn. Disgwylir yn bryderus pa fodd y try yr etholiad i maes ag sydd ar gymeryd lle yn Paris. Eugene Sue, yr ysgrifenydd enwog, sydd yn cael ei gynnyg a'i bleidio gan y *Socialists*, a chan y mwyrif o'r milwyr, fel y dywedir; pan y mae'r gwerinwyr cymedrol (*Moderates*) a'r nnbenaethwyr (*legitimists*) yn cytuno i bleidleisio dros M. Leclerc.

Dywedir fod reilffordd yn debyg o gael ei gwneyd yn groes o gulfor Dover i for y Canoldir, ac felly ddwyn India o fewn taith ychydig ddiwrnodau i Loegr.

RHUFAIN.

Y mae y Pab o'r diwedd wedi dychwelyd i'w prif-ddinas. Yn ystod ei ymdaith ymwelodd â Terracina a Valletri: ac ar y 12fed o Ebrill, am 4 o'r gloch y prydnawn cyrhaeddodd Porte St. Giovanni. Derbyniwyd ef gan y Rhufeinwyr yn roesawus dros ben, medd y newyddiaduron Rhufeinig. Y mae y ddinas yn dawel, a'r Pab wedi dychwelyd i'w balas a'i orsedd yn y Vatican. Druan â Pio Nono! Beth a

wna'r hen ddyn ar ol i'r milwyr Frengig ddychwelyd adref?

GERMANY.

Y mae y Senedd Fawr yn Erfurt hyd yn hyn wedi myned ymlaen yn bur dawel. Ond nid oes dim o bwys neillduol wedi ei benderfynu etto.

GROEG.

Hysbysir fod achos y cweryl rhwng Groeg a Lloegr ar gael ai symud. Groeg i dalu 60,000 o ddrachmau.

AMERICA.

Mae Dr. Webster wedi ei brofi a'i gael yn euog o lofruddio Dr. Parkinan (gwel rhifyn Rhagfyr); ac y mae dedfryd marwelaeth wedi ei phasio arno. Parnaodd y treial dros 12 diwrnod.

MARWOLAETHAU.

Dydd Mercher, Chwefror y 27ain, 1850, yn 37 mlwydd oed, bu farw Morgan, mab Dafydd Williams, Cwmaman, Aberdâr. Cafodd ei gystuddio yn agos i wyth mlynedd o amser gan wendid yn y giau a'r aelodau; ac ni allasai syflyd un cam o'r fan y byddai heb gynnorthwy. Yr oedd trwy ei holl gystudd yn hynod o amyneddgar a thawel. Gwelodd Duw yn dda i'w symud o'r bywyd lle nad oedd ond poen a helbul o'i flaen. Yn ei angladd pregethodd y Parch. J. Jones, Aberdâr, oddiwrth 2 Cor. v. 10. Ac yna hebryngwyd y corff i fynwent eglwys y plwyf, i orphwys yno hyd yr adgyfodiad. EIDD. GLAN CYNON.

Dydd Sadwrn, Mawrth yr 16eg, yn 63 oed, bu farw Thomas Williams, o'r Gelli, Llwydcoed, Aberdâr. Yr oedd yn ddyn o ymddygiad onest a diniwed bob amser, fel y caffai ei barchu gan bawb a'i hadwaenai; ac yr oedd yn aelod selog gyda'r Undodiaid yn Aberdâr er's amser maith. Y Llun canlynol, ymgynnullodd tyrfa luosog ynghyd i'w hebrwng i dy ei hir gartref, Cyn cychwyn, pregethodd y Parch. John Jones oddiwrth Num. xxiii. 10, yn rymus ac effeithiol; yna hebryngwyd ei gorph i fynwent eglwys Penderyn, swydd Frycheiniog. AB DAFYDD.

Bu farw o'r dwymyn budr, ar y 26ain o Fawrth diweddaf, yn 25 oed, Thomas, mab John Thomas, Ffarmwr, yr hwn sydd yn byw ar Benrhiw'r-uchain, yn Aberdâr. J. J.

GOFYNIAD.

MR. GOLYGYDD,—Fel yr ydwyf bob mis yn derbyn eich misolyn, ac y mae yn hoff genyf ei weled, fel yr wyf yn derbyn llawer o ddiddanwch a goleuni i fy hun (llwyddiant iddo). Yr wyf am gynnyg un peth i chwi, neu rai o'ch gohebwyr hynaws, ag sydd yn chwilio i mewn i bynciau dyrys yr Ysgrythyrau. Yr wyf yn garedig yn gofyn eu hystyriaeth ar y pwnc ag sydd yn weledig yn Actau x. 44. Pa beth oedd Pedr yn ei feddwl wrth ddywedyd, fod "yr Ysbryd Glân wedi disgyn ar deulu Cornelius (megys ninnau)?" Ni a wyddom bod Duw gwedi tywallt nerth goruwch-naturiol ar dysgyblion Crist i wneuthur gwyrthiau er mwyn planiad yr efengyl. Y pwnc yw, a oedd Cornelius gwedi derbyn yr un rodd oddiwrth Dduw, neu nag oedd? Ateb hynawsedd a dyr llld,

Llynodyn Llandyssil. R. T.

BARDDONIAETH.

CAN AR WERTHFAORWGRWYDD AMSER.

Peth cyflym o chyson yw amser,
Ni erys yn ofer un awr;
Ond gweithio fel olwyn mewn olwyn
Ar glogwyn Creawdwr mor fawr:
'Does iddo un gorphwys o'i amcan,
Ei anian yn gyfan i gyd,
Dwyn oriau, a dyddiau, a misoedd,
Blynyddoedd trwy oesoedd y byd.

Peth gwerthfawr yw amser mabandod,
Os gwyliwn ei drafod e'n iawn;
Yr amser mae dyn yn agored,
I dderbyn gwybodaeth yn llawn;—
Yr amser mae'r deall yn fywiog,
Y cof, a phob synwyr yn llym,
Yr amser i blanu gwybodaeth,
Cyn delo temtasiwn mewn grym.

Yn amser boreuol ein bywyd.
Os gallwn gyrhaeddyd yn iawn,
Wybodaeth am waith y Creawdwr,
O'i ganfod dedwyddwch a gawn;
O gwyliwn na threuliwn yn ofer,
Un amser mor werthfawr a hwn,

'Does modd idd ei brynu na'i alw.
Yn ol i'w ail-dreulio, mi wn.

'Nol myned dros amser ein hienctyd,
Gofalon ond odid a ddaw.
Ni chawn ni un farchnad gwybodaeth,
Ond hwnfydd yn llwyddo ar bob llaw:
Y pyrth fydd yn dechreu cyfyngu,
Y deall trwy hyny'n gwanhau,
Y cof fynd yn rwyllog ac egwan,
A'r amser yn myned yn glau.

Ansicrwydd ein hamser sydd hefyd,
Yn galw yn ddiwyd ar ddyn,
Am weithio tra gelwir hi heddyw,
Y fory nis gwyddom pa un
Ai ar ein claf wely ein gwelir
Yn ochain am wnenthur yn well,
Neu f'allai y'n gwelir yn gelain,
Ac amser o'n gafael yn mhell.

O! pa mor gysurus yw siarad
A'r dynion oedranus i gyd,
Fo wedi defnyddio eu hamser
I 'mofyn gwybodaeth mewn pryd:
Hwy roddant i'r ie'nctyd gyf'rwyddyd,
Pa le mae gwir wynfyd i'w gael,
Y fynwes yn dawel wrth hyny,
Daw amser a'r gwobrwy'n ddifael.

Aberda. EVAN R. JENKIN.

GOLWG AR FARWOLAETH Y SAINT YMADAWEDIG.

HYBARCH OLYGYDD,—Os ystyriwch y llinellau isod yn werth sylw y cyhoedd, arfoll at eich gwasanaeth.

Gwyn fyd ' rhai orphenasant daith
Beryglus yr anialfyd maith:
Nid meirw ynt; ond mawr eu braint,
Byw etto y mae pawb o'r Saint.

Nid y byd hwn—anhyfryd yw,
Llawn blin ofidiau o bob rhyw—
Fwriadodd Duw, doeth nefawl dad,
I'w ufudd blant gael hir fwynhad.

Dan reidrwydd i holl deulu dyn,
(I'w diosg o bob cnawdol wyn)
Marwolaeth drefnodd er eu dwyn,
I fwyniant o'u haddefwlad fwyn.

Ni phrofant loes marwolaeth mwy;
Gerbron eu Duw preswyliant hwy;
Cant gyd-deyrnasu byth ag ef,
Yn ngwlad y gwawl, yn ninas nef.

Uwch gofid, galar a phob cur,
Mewn mor didrai o wynfyd pur,
Mor hyfryd ar nefolgerdd ber,
Addolant r'un anfeidrol Ner!

Eiddunaf, nefol rasol Ri!
Ddiffygiol deithiwr, cymhorth fi—
I ben fy nhaith gael uno'r gan,
Dros byth a'r dorf nefolaidd lan.

Llandyssil. DEWI DOLFOR.

ENGLYNION AR LYS IFOR HAEL, O BASSALEC

LLYS Ifor Hael, gwael yw'r gwedd—yn garnau
Mewn gwerni yn gorwedd;
Drain ac ysgall mall a'i medd,
Ieiille bu'r mawredd.

Yno nid oes awenydd—na beirddion,
Na byrddau llawenydd,
Nag aur yn eu magwyrydd,
Na mael, na gwr hael a'u rhydd.

Er bri arglwyddi bu'r glod—eu mawredd
A'u muriau sy'n darfod;
Lle rhyfedd i falchedd fod,
Yw teiau yn y tywod!

EVAN BRYDYDD HIR.

AT EIN GOHEBWYR.

AMDDIFFYNIAD MR. JONES, ABERDAR.

MR. YMOFYNYDD,—Goddefwch i mi ddywedyd wrth y rhai a'ch "hysbysasant" fy mod i wedi myned yn rhy bell wrth amddiffyn fy nghyfeillion yn rhifyn Rhagfyr, mai fy awdurdod ydyw Jevons yn y *Reformer;* ac hefyd yn ei lythyr attaf, ynghyd a Mr. Jones, gynt o Flaengwrach, yn awr o Newtown, Caerdydd. Yn lle rhoddi yr anwiredd i mi buasai yn gymmwysach iddynt ddarllen, a holi.

Ydwyf, J. JONES, *Aderdar, Ebrill* 13*eg*, 1850.

[Drwg genym weled ddarfod i ni ddefnyddio geiriad anhappus. Nid yw ond cyfiawnder i ni ddywedyd, *nad oedd yr amcan lleiaf* i "roddi yr anwiredd i Mr. Jones. Peth arall yw peidio â chytuno yn gwbl a'r hyn a ddywedodd efe am ysgrifeniadau Mr. Jevons a'i drefniadau yn Mlaengwrâch. Nid oes un lle i ammeu geirwiredd ein Gohebydd; a gobeithiwn y gwel ef ei hunan ei fod yn eithaf anmhriodol i erlyd y peth yn mhellach yn yr Ymofynydd.]

Mr. Evans o Lambedr—Yn groes i'n dysgwyliad ni, gorfu ar yr argraffydd adael allan ysgrif Mr. E. y mis hwn.

R. P., Cwmavon.—A fydd ein Gohebydd cystal ag anfon ei ofyniad attom eilwaith? Y mae ei ysgrif ryw fodd wedi myned ar goll.

Derbyniadau y Mis,—O. Evans; T. J. Jones; G. W. Roberts; Ab Dafydd; J. Jones; R. T. Llynodyn; J. Francis; T. Evans; Carwr Cysondeb.

[D. EVANS, ARGRAFFYDD, CAERDYDD.